



Trefniadau ar gyfer arholiadau haf 2020

Penderfyniadau a gymerwyd yn dilyn yr ymgyngoriad



Mehefin 2020

Cynnwys

1	Cyflwyniad	3
2	Crynodeb Gweithredol	6
3	Ein Penderfyniadau	11
	Cynnig 1: Cyflwyno nodau i ategu'r model safoni ystadegol ar gyfer rhoi graddau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020	11
	Cynnig 2: Cyflwyno proses apelio arbennig ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020.....	31
	Barn broffesiynol a gweithdrefnau canolfannau (Cwestiwn 9)	31
	Gweithdrefnau CBAC (Cwestiwn 10)	34
	Atal graddau is i'r dysgwyr hynny na chânt eu nodi fel rhan o apêl (Cwestiwn 12)	38
	Proses apelio symlach (Cwestiwn 13)	39
	Annibyniaeth a Didueddrwydd (Cwestiwn 14)	40
	Y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (Cwestiwn 15).....	41
	Sylwadau eraill a gafwyd	42
4	Asesiad Effaith Integredig	44
5	Y Camau Nesaf	52

1 Cyflwyniad

Ar 18 Mawrth 2020, er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r coronafeirws (COVID-19), cyhoeddodd Gweinidog Addysg Cymru y byddai ysgolion yn cau¹ ac y byddai cyfres arholiadau haf 2020 yn cael ei chanslo.²

O ganlyniad, ar 6 Ebrill 2020, cyhoeddodd Gweinidog Addysg Cymru Gyfarwyddyd i ni³ o dan Adran 53 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 i ystyried Polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chanslo arholiadau ac, o ganlyniad, pennu graddau. Mae'r Cyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol inni sicrhau y caiff dull teg a chadarn ei fabwysiadu er mwyn dyfarnu graddau i gohort haf 2020 o ddysgwyr.

Gwnaethom ymgynghori ar gynigion yn ymwneud ag agweddau allweddol ar y trefniadau ar gyfer haf 2020 am gyfnod o bythefnos rhwng dydd Mawrth 28 Ebrill a 13 Mai 2020. Gwnaethom gydnabod bod yr amserlen hon yn dynn oherwydd amgylchiadau eithriadol yr ymgynghoriad hwn a'r gofynion dealladwy i sicrhau eglurder cyn gynted â phosibl i ddysgwyr, canolfannau a'r rheini a fydd yn defnyddio canlyniadau cymwysterau 2020. Diolch i bawb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad hwn.

Gwnaethom gynnig y dylid cyflwyno cyfres o nodau i ategu'r gwaith o ddyfarnu graddau i ddysgwyr sy'n sefyll cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau yng nghyfres arholiadau haf 2020, a rhoi proses apelio arbennig ar waith ar gyfer yr haf hwn. Wrth ddatblygu ein cynigion, ystyriwyd yr angen i sicrhau bod y dull gweithredu a fabwysiedir yr haf hwn mor deg a chadarn â phosibl, ac i sicrhau safonau cymwysterau a hygredded graddau dros amser.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Yn ystod yr ymgynghoriad, gwnaethom gynnal sesiynau briffio ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, a oedd yn cynnwys:

- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru;
- Comisiynydd Plant Cymru;
- ColegauCymru ac Arweinwyr AB;

¹ Llywodraeth Cymru (2020) Datganiad gan y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams ar gau ysgolion yng Nghymru – <https://cyfryngau.gwasanaeth.llyw.cymru/newyddion/datganiad-gan-y-gweinidog-addysg-kirsty-williams-ar-gau-ysgolion-yng-nghymru>

² Llywodraeth Cymru (2020) Datganiad ar gyfres arholiadau'r haf <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-datganiad-ar-gyfres-arholiadau-haf>

³ Llywodraeth Cymru (2020) Canslo arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch: llythyr <https://llyw.cymru/canslo-arholiadau-tgau-ug-safon-uwch-llythyr>

- Penaethiaid Consortia Addysg;
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;
- Penaethiaid Canolfannau;
- Grwpiau Lleiafrifol a Grwpiau Cynrychioli Rhieni;
- Sefydliadau Cynrychioli Undebau Llafur;
- Senedd Ieuencid Cymru


Ymgysylltu â Phobl Ifanc

Yn ogystal â'r ddogfen ymgynghori safonol, gwnaethom lunio fersiwn o'r ymgynghoriad i bobl ifanc a oedd yn crynhoi'r prif bwyntiau. Cyhoeddwyd y fersiwn hon yn ddwyieithog ar ein gwefan hefyd.

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cawsom gyfanswm o 4,057 o ymatebion i'r ymgynghoriad, yn amrywio o atebion byr i naratif manwl o'r cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r ymatebion wedi'u dosbarthu yn ôl eu math, fel a ganlyn:

Ffigur 1: Ymatebwyr yn ôl eu math



Noder: Nododd rhai ymatebwyr eu bod yn fwy nag un math o ymatebwr (e.e. rhiant ac athro). Felly, mae cyfanswm y categorïau yn ffigur 1 yn fwy na chyfanswm nifer yr ymatebwyr.

Cawsom sylwadau nad oeddent yn uniongyrchol gysylltiedig â'r opsiynau yn yr ymgynghoriad, er enghraifft y trefniadau ar gyfer arholiadau haf 2020. Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw'r materion hyn wedi'u cwmpasu yn yr adroddiad hwn ar y penderfyniadau. Caiff penderfyniadau ar faterion perthnasol sydd y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn eu cyhoeddi ar wahân.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r penderfyniadau a wnaed gennym yn dilyn ein hymgyngoriad ar y trefniadau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020 ac mae'n egluro ein dull o ystyried adborth ymatebwyr. Cyhoeddwyd crynodeb llawn o'r ymatebion ochr yn ochr â'r adroddiad hwn ar y penderfyniadau.

Rydym wedi nodi yn y ddogfen hon lle mae ein penderfyniadau yn ymwneud â chwestiynau penodol yn ein hymgyngoriad, er mwyn sicrhau ei bod yn haws croesgyfeirio rhwng y dogfennau.

2 Crynodeb Gweithredol

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r penderfyniadau a wnaed gennym yn dilyn ein hymgyngoriad. Mae'r penderfyniadau hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- cyflwyno nodau a fydd yn ategu'r model safoni ystadegol ar gyfer rhoi graddau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020;
- cyflwyno proses apelio arbennig ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020.

Nodwn ein bod wedi penderfynu diweddarau ein canllawiau⁴ i ganolfannau yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys geiriad y datganiad gan Bennaeth y Ganolfan i gadarnhau bod y ganolfan wedi gwneud gwaith gweinyddol i gadarnhau cywirdeb y data a gyflwynir ganddi i CBAC.

Gwnaethom hefyd ddiweddarau'r canllawiau i atgoffa Canolfannau am eu cyfrifoldebau mewn perthynas â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus⁵, yn cynnwys y dyletswyddau penodol ar gyfer Cymru sy'n nodi'r camau y mae'n rhaid eu cymryd i ddangos bod ystyriaeth ddyledus wedi'i rhoi i'r materion y mae'r Ddyletswydd yn cyfeirio atynt.⁶

O ystyried y ffaith y gellid gofyn i ganolfannau gyfiawnhau'r penderfyniadau a wnaed ganddynt, diweddarwyd y canllawiau hefyd i gynghori canolfannau yn gryf i gadw cofnod ysgrifenedig manwl o'r broses a ddefnyddir i greu graddau asesu canolfannau a threfn rancio ar gyfer pob cymhwyster, a hefyd sut y defnyddiwyd y broses honno wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â graddau pob dysgwr.

Gan ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu rhoi'r rhan fwyaf o'r cynigion a nodwyd gennym yn y ddogfen ymgynghori ar waith. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu diwygio ein cynigion gwreiddiol mewn rhai meysydd. Rydym yn egluro'r rhain yn fanylach yn ddiweddarach yn y ddogfen hon ac yn eu crynhoi isod:

⁴ <https://www.cymwysteraucymru.org/media/5972/gwybodaeth-i-ganolfannau-ar-gyflwyno-graddau-asesu-canolfannau-fersiwn-2-18-mai-2020.pdf>

⁵ <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/section/149>

⁶ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/1064/contents/made>

Cynnig 1: Cyflwyno nodau a fydd yn ategu'r model safoni ystadegol ar gyfer rhoi graddau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020	
Y Cynnig Gwreiddiol	Penderfyniad
<p>Nod 1: Bydd dysgwyr y cyflwynir gradd asesu canolfannau lefel cymhwyster a threfn rancio ar eu cyfer yn cael gradd.</p>	<p>Rydym wedi penderfynu mabwysiadu Nod 1 fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad.</p> <p>Rydym wedi penderfynu y dylid rhoi dull eithriadol ar waith mewn perthynas â'r ymgeiswyr preifat hynny na allant gael data asesu canolfan (sef gradd asesu canolfan a lle yn nhrefn rancio dysgwyr canolfan), ac sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn ein datganiad polisi ar ymgeiswyr preifat, gyda'r nod o roi gradd i gynifer o'r ymgeiswyr hynny â phosibl.</p> <p>Byddwn yn cyhoeddi datganiad polisi mewn perthynas ag ymgeiswyr preifat ochr yn ochr â'r adroddiad hwn ar y penderfyniadau.</p>
<p>Nod 2: Bydd deilliannau cenedlaethol ar gyfer haf 2020 yn gymharol debyg i ddeilliannau blynyddoedd blaenorol er mwyn lleihau'r risg o annhegwch i ddysgwyr dros amser.</p>	<p>Rydym wedi penderfynu diwygio Nod 2 i gynnwys cyfeiriad at yr angen i gynnal hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau</p> <p>Felly, mae'r nod hwn bellach yn darllen fel a ganlyn: <i>Bydd deilliannau cenedlaethol yn gymharol debyg i ddeilliannau blynyddoedd blaenorol er mwyn lleihau'r risg o annhegwch i ddysgwyr dros amser a chynnal hyder y cyhoedd.</i></p>
<p>Nod 3: Bydd y graddau terfynol a roddir i ddysgwyr yn dilyn proses deg a chadarn gan ddefnyddio'r wybodaeth a roddir i CBAC gan ganolfannau a'r model safoni ystadegol a ddatblygwyd gan CBAC ac y cytunwyd arno gyda Cymwysterau Cymru.</p>	<p>Rydym wedi penderfynu cyfuno Nodau 3 a 5 yn un nod cynhwysfawr sy'n disgrifio'r modd y bydd y model yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i gyfrifo'r graddau tebygol y byddai dysgwyr wedi'u cael yr haf hwn. Hwn</p>

Bydd y prosesau a fabwysiedir yn dryloyw ac yn gyflawnadwy yr haf hwn.	fydd ein pedwerydd nod bellach, a'r un olaf.
Nod 4: Cyn belled ag y bo modd, dylem sicrhau na fydd y broses ar gyfer dyfarnu graddau yn ystod haf 2020 yn rhoi grwpiau o ddysgwyr o dan anfantais, gan gynnwys y rhai hynny â nodweddion gwarchoddedig, o gymharu â blynyddoedd blaenorol.	<p>Rydym wedi penderfynu diwygio geiriad y Nod hwn i roi mwy o eglurder na ddylai'r broses ar gyfer dyfarnu graddau olygu bod unrhyw ddysgwyr, yn cynnwys y rheini â nodweddion gwarchoddedig o dan ddeddfwriaeth cydraddoldebau, yn wynebu unrhyw anfantais na mantais yn systematig.</p> <p>Mae'r Nod hwn bellach yn darllen fel a ganlyn: <i>Cyn belled ag y bo modd, ni fydd y broses ar gyfer dyfarnu graddau yn golygu bod dysgwyr, yn cynnwys y rheini â nodweddion gwarchoddedig o dan ddeddfwriaeth cydraddoldebau, yn wynebu unrhyw anfantais na mantais yn systematig.</i></p>
Nod 5: Bydd y prosesau y cytunwyd arnynt ar gyfer pob math o gymhwyster yn galluogi'r nifer mwyaf o ddysgwyr i gael graddau yn seiliedig ar ddull cyffredin. Bydd y prosesau yn defnyddio canlyniadau o gymwysterau ac unedau a gwblhawyd eisoes ac a ddyfarnwyd i ddysgwyr, lle y bo hynny ar gael.	Rydym wedi penderfynu cyfuno Nodau 3 a 5 yn un nod cynhwysfawr sy'n disgrifio'r modd y bydd y model yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i gyfrifo'r graddau tebygol y byddai dysgwyr wedi'u cael yr haf hwn. Hwn fydd ein pedwerydd nod bellach, a'r un olaf.
Cynnig 2: Cyflwyno proses apelio benodol ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020	
Y Cynnig Gwreiddiol	Penderfyniad
Ni fydd modd i ddysgwyr sy'n anfodlon â'u canlyniadau yr haf hwn apelio yn erbyn y farn broffesiynol a wnaed gan eu canolfan, nac ychwaith y weithdrefn a ddefnyddiwyd gan eu canolfan i gyrraedd y farn hon.	<p>Rydym wedi penderfynu mabwysiadu ein cynnig na ddylem roi cyfle i ddysgwyr herio eu gradd asesu gan ganolfan na'u safle yn nhrefn rancio'r ganolfan drwy apêl i CBAC.</p> <p>Fodd bynnag, bydd dysgwr yn gallu gofyn i'w ganolfan gadarnhau a yw wedi</p>

	<p>gwneud gwall wrth gyflwyno data asesu'r ganolfan ar ei gyfer.</p>
<p>Bydd modd i ganolfannau apelio i CBAC ar y sail ei fod wedi defnyddio'r data anghywir wrth gyfrifo gradd, os bydd y graddau amcangyfrifedig a gynhyrchwyd gan y model safoni ystadegol wedi'u dyrannu neu eu cyfathrebu'n anghywir a/neu os bu unrhyw fethiant gweithdrefnol arall ar ran CBAC.</p>	<p>Rydym wedi penderfynu y dylem fabwysiadu ein cynnig y dylai canolfan allu apelio i CBAC ar y sail ei fod wedi defnyddio'r data anghywir wrth gyfrifo graddau, a/neu ei fod wedi dyrannu neu gyfathrebu'r graddau amcangyfrifedig yn anghywir.</p> <p>Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC gyhoeddi gwybodaeth am ei drefniadau apelio.</p> <p>Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC roi'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i gyfrifo canlyniad a roddwyd i ddysgwr i ganolfan, ar gais. Rhaid i'r wybodaeth hon fod yn ddigonol a chaniatáu digon o amser i ganolfannau ystyried a fyddant yn gofyn am apêl.</p>
<p>Ar gyfer canlyniadau a roddir yr haf hwn, dylem ond disgwyl i CBAC ystyried apeladau a gyflwynir gan ganolfannau, ac nid y rhai hynny a gyflwynir gan ddysgwyr unigol.</p>	<p>Rydym wedi penderfynu mabwysiadu ein cynnig y dylem ond disgwyl i CBAC ystyried apeladau a gyflwynir gan ganolfannau, ac nid y rhai hynny a gyflwynir yn uniongyrchol gan ddysgwyr unigol.</p> <p>Rydym wedi penderfynu y bydd y gofynion rheoleiddiol ar gyfer haf 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC sicrhau bod canolfannau yn rhoi cyfle i ddysgwyr apelio o fewn y ganolfan:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) yn erbyn penderfyniad canolfan i beidio â cheisio unrhyw wybodaeth sydd gan CBAC y byddai ei hangen ar gyfer apêl; a/neu (ii) i beidio ag apelio i CBAC.

<p>Os bydd proses apelio yn nodi gwall a fyddai'n arwain at radd is i ddysgwyr heblaw'r rhai hynny y cyfeiriwyd atynt yn yr apêl, yna ni ddylai CBAC ostwng y graddau hyn.</p>	<p>Rydym wedi penderfynu mabwysiadu ein cynnig lle y gwneir apêl ar ran un dysgwr neu fwy (ond nid pob dysgwr) mewn cohort canolfan, y dylai'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer 2020 atal graddau dysgwyr heblaw am y rhai a enwyd mewn apêl rhag cael eu gostwng lle caiff gwallau eu canfod drwy'r broses apelio.</p>
<p>Dylid caniatáu i CBAC gynnal proses apelio wedi'i symleiddio lle bo'r unigolyn sy'n gwneud penderfyniadau yn ystyried adroddiad gan yr aelod o staff sy'n cynnal yr adolygiad gweinyddol ac unrhyw gynrychioliadau a wnaed gan y ganolfan yn sgil yr adroddiad hwnnw.</p>	<p>Rydym wedi penderfynu mabwysiadu ein cynnig y dylid caniatáu i CBAC gynnal proses gyflymach lle mae'n cytuno bod gwall wedi'i wneud ac y gall gywiro unrhyw wall o'r fath yn gyflym.</p>
<p>Dylai fod yn ofynnol i CBAC gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff pob penderfyniad apêl ei gymryd gan bobl nad oeddent yn rhan o'r broses yn arwain at roi'r canlyniadau hynny.</p>	<p>Rydym wedi penderfynu diwygio ein cynnig, ac yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y penderfyniad terfynol mewn perthynas â chanlyniad apêl yn cael ei wneud gan bobl nad oeddent yn rhan o'r broses flaenorol yn arwain at roi canlyniadau mewn perthynas â dysgwr y mae'r apêl yn ymwneud ag ef.</p>
<p>Unig swyddogaethau'r Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau (EPRS) yr haf hwn fydd adolygu: 1. i ba raddau yr oedd CBAC yn cydymffurfio â'n gofynion ni, a'i bolisiâu a'i weithdrefnau ei hun, neu 2. os cafodd unrhyw wall ei nodi yn y data a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r radd/graddau amcangyfrifedig a/neu yn y radd/graddau a ddyfarnwyd, p'un a gafodd y gwall hwnnw ei gywiro'n iawn.</p>	<p>Rydym wedi penderfynu mabwysiadu ein cynnig y dylai'r EPRS, a weithredir gan Cymwysterau Cymru, fod ar gael i adolygu i ba raddau yr oedd CBAC yn cydymffurfio â'n gofynion ni, a'i bolisiâu a'i weithdrefnau ei hun, a ph'un a gafodd unrhyw wall a nodwyd yn y data a ddefnyddiwyd i greu'r radd/graddau amcangyfrifedig a/neu yn y radd/graddau a ddyfarnwyd, ei gywiro'n iawn.</p>

3 Ein Penderfyniadau

Cynnig 1: Cyflwyno nodau i ategu'r model safoni ystadegol ar gyfer rhoi graddau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020

Cododd ymatebwyr nifer o bryderon ac ystyriaethau am bob un o'r nodau. Gellir priodoli llawer o'r sylwadau hyn i bryder efallai na fydd dysgwyr yn cael y radd y byddent wedi'i chael pe byddent wedi cwblhau eu hasesiadau yr haf hwn. Rydym yn derbyn y bydd yn heriol rhoi graddau teg i ddysgwyr yr haf hwn, ond byddwn yn ceisio sefydlu system sy'n gwneud hyn orau ag y gallwn.

Fel yr eglurwyd yn flaenorol, lle ceir tensiwn rhwng y nodau, byddwn yn blaenoriaethu'r rhai hynny sy'n ein galluogi i gyflawni ein prif nodau yn yr amgylchiadau penodol yn y ffordd orau.

Nod 1: Bydd dysgwyr y cyflwynir gradd asesu canolfannau lefel cymhwyster a threfn rancio ar eu cyfer yn cael gradd (Cwestiwn 4)

Gwnaethom geisio safbwyntiau ymatebwyr ar b'un a ddylai dysgwyr gael gradd os gall canolfan gyflwyno gradd asesu canolfan a threfn rancio ar gyfer cymhwyster penodol. Un o'r prif ystyriaethau ar gyfer y cynnig hwn ei bod yn bosibl, o ganlyniad i hyn, na fydd ymgeiswyr preifat nad oes ganddynt gydberthynas â chanolfan ar hyn o bryd yn cael gradd am nad oes gan y ganolfan ddigon o dystiolaeth i lunio barn.

O'r 4,107 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 78% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig hwn; roedd 15% yn cytuno ac yn anghytuno'n rhannol, roedd 3% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ac roedd 4% yn ansicr⁷. Rhoddodd 1,149 o'r ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i egluro eu hymateb.

Cyflwyno Data Asesu Canolfannau

Nododd yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig yn aml bod y dull gweithredu'n deg, yn enwedig o ystyried yr amgylchiadau mewn perthynas â chanslo arholiadau a'r angen i gyfrifo graddau ar gyfer dysgwyr yr haf hwn. Teimlwyd y byddai'r dull gweithredu arfaethedig yn sicrhau y byddai'r mwyafrif helaeth o ddysgwyr yn cael gradd yn y cymwysterau roeddent wedi'u cofrestru ar eu cyfer.

⁷ Weithiau, nid yw'r canrannau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn gwneud cyfanswm o 100%. Mae hyn am fod rhai canrannau wedi cael eu talgrynnu i fyny neu i lawr at ddibenion cyflwyno.

Roedd ymatebwyr eraill yn cytuno â'n datganiad mai athrawon sydd yn y sefyllfa orau i roi'r wybodaeth sy'n ofynnol i ddysgwyr gael gradd ac roeddent yn croesawu'r ymddiriedaeth ynddynt i gyflawni'r rôl bwysig hon.

Er bod rhai o'r ymatebwyr yn cydnabod y gall y dull gweithredu arfaethedig achosi pryder sylweddol i ddysgwyr na fyddent yn cael gradd asesu canolfan a threfn rancio, teimlwyd y byddai'r nod yn amddiffyn canolfannau rhag wynebu pwysau i roi graddau i ddysgwyr nad oedd ganddynt ddigon o dystiolaeth ar eu cyfer i lunio barn wrthrychol.

Gwnaed y mwyafrif o'r pryderon a fynegwyd gan ymatebwyr ar y sail eu bod yn credu y byddai defnyddio data asesu canolfannau fel elfen graidd ar gyfer cyfrifo graddau yr haf hwn yn golygu y byddai rhai dysgwyr yn cael gradd wahanol i'r hyn y byddent yn debygol o fod wedi'i chael pe byddent wedi cwblhau eu hasesiadau, yn hytrach nag unrhyw bryderon ynghylch pwy ddylai gael gradd yr haf hwn.

Ymysg y pwyntiau penodol a godwyd gan ymatebwyr mewn perthynas â hyn roedd:

- efallai na chaiff cynnydd o ran yr hyn a fyddai wedi cael ei ddysgu yn ystod tymor yr haf ei gydnabod yn nata asesu canolfannau;
- gall dysgwyr sy'n ffafrio arholiadau, neu sy'n fwy tebygol o berfformio'n dda mewn arholiadau yn hytrach na mathau eraill o asesiad, fod dan anfantais;
- pryderon ynghylch gallu'r dystiolaeth i ragfynegi deilliannau tebygol;
- amrywiad yn nefnydd canolfannau o asesiadau diarholiad;
- pryderon y gallai data asesu canolfannau fod yn agored i duedd ymwybodol neu anymwybodol;
- pryderon y gallai'r broses o nodi trefn rancio olygu bod dysgwyr yn cael graddau is na'r hyn y byddent wedi'i gyflawni. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol galluogi canolfannau i gyflwyno trefn rancio gyfartal, lle caiff dysgwyr eu grwpio gyda'i gilydd.

Ein Hymateb

Mewn ymateb i bryderon y gall canolfannau danamcangyfrif graddau asesu canolfannau, mae'n bwysig pwysleisio ein disgwyliad clir, fel y nodir yn y canllawiau a gyhoeddwyd gennym, bod yn rhaid i raddau asesu canolfannau adlewyrchu'r **radd fwyaf tebygol y byddai dysgwr wedi'i chael pe byddai wedi sefyll ei arholiadau yr haf hwn ac wedi cwblhau unrhyw asesiad diarholiad**. Felly, er y gellir defnyddio perfformiad mewn ffug arholiadau, gwaith dosbarth ac asesiadau ffurfiannol eraill, rydym wedi nodi'n glir y dylid llunio barn broffesiynol gyfannol wrth bennu graddau asesu canolfannau ar gyfer pob dysgwr, gan gydbwysu'r gwahanol ffynonellau tystiolaeth sydd ar gael.

Cyn cyflwyno ein gofynion rheoleiddio ar CBAC yr haf hwn, rydym wedi egluro wrtho bod yn rhaid iddo ddarparu canllawiau ychwanegol i ganolfannau ar lunio barn a chyflwyno data, a rhoi trefniadau clir ac effeithiol ar waith fel ei bod yn hawdd i ganolfannau godi unrhyw gwestiynau neu bryderon am y broses.

O ran pryderon y gallai data asesu canolfannau fod yn agored i duedd ymwybodol neu anymwybodol, ac er mwyn osgoi ailadrodd, rydym yn mynd i'r afael â'r rheini yn ein hymateb i Nod 4 (gweler isod).

Ymgeiswyr Preifat

Cododd rhai o'r ymatebwyr bryderon sylweddol ei bod yn bosibl na fydd rhai dysgwyr yn gallu cael gradd o gwbl yr haf hwn – yn arbennig ymgeiswyr preifat nad oes ganddynt gydberthynas â chanolfan ar hyn o bryd.

Cynigiwyd atebion amgen i'r mater hwn gan rai ymatebwyr, yn cynnwys:

- hwyluso arholiad i'r ymgeiswyr preifat hyn, gan gydymffurfio â mesurau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol;
- annog canolfannau i weithio gyda thiwtoriaid preifat i ddatblygu corff o dystiolaeth a fydd yn galluogi canolfannau i roi graddau asesu;
- galluogi ymgeiswyr preifat i roi tystiolaeth o'u gwaith yn uniongyrchol i CBAC ei hystyried;
- annog canolfannau i weithio'n uniongyrchol ag ymgeiswyr preifat i lunio portffolio o waith y gellir ei asesu yn unol â dysgwyr eraill yn y ganolfan honno.

Awgrymwyd efallai nad oedd sefyllfa ymgeiswyr preifat yn gwbl amlwg i ymatebwyr wrth iddynt ddarllen y nod ar ei ben ei hun a'i bod yn bosibl bod rhai ymatebwyr wedi dehongli'r nod hwn i olygu y byddai pob dysgwr sy'n disgwyl cael gradd yr haf hwn yn cael un. Felly, teimlwyd efallai na fyddai pwysigrwydd ceisio trefniadau amgen ar gyfer ymgeiswyr preifat yn amlwg yn yr ymatebion. Gallwn eich sicrhau ein bod wedi cymryd camau i geisio trefniadau amgen.

Ein Hymateb

Rydym wedi ystyried ymhellach a allem ei gwneud yn ofynnol i CBAC gael gwybodaeth berthnasol, yn debyg i raddau asesu canolfannau, gan diwtoriaid preifat neu rieni sydd wedi cymryd cyfrifoldeb dros baratoi ymgeiswyr ar gyfer arholiadau. Fodd bynnag, yn wahanol i ganolfannau, nid oes cytundeb yn bodoli eisoes rhwng tiwtoriaid preifat neu rieni a CBAC y gellid ei ddefnyddio i gael y wybodaeth angenrheidiol ac nid oes dull lle gallai CBAC ofyn am y datganiad angenrheidiol a'i orfodi. Ymhellach, gall tiwtoriaid preifat a rhieni wynebu llawer o'r pwysau rydym wedi ceisio gwarchod athrawon

rhagddynt wrth wneud y penderfyniadau hyn, hyd yn oed yn anymwybodol, ac felly rydym o'r farn na allai tiwtor preifat na rhiant ddarparu gwybodaeth o'r fath.

Er hyn, rydym wedi nodi un dull gweithredu ychwanegol yr oedd yn werth ei archwilio ymhellach. Rydym wedi ystyried a ellid rhoi gradd wedi'i chyfrifo gan ddefnyddio canlyniadau unedau i ymgeiswyr preifat sydd eisoes wedi cael canlyniadau ar gyfer rhai o'r unedau. Byddai'r dull hwn yn debyg i'r dull sefydledig a ddefnyddir os bydd dysgwyr yn colli un uned neu fwy, a bod corff dyfarnu yn penderfynu gwneud dyfarniad eithriadol, ar sail tystiolaeth rannol. Byddai'r broses hon, er ei bod yn bodoli ar gyfer dysgwyr a all gollu rhan o'u hasesiad mewn amgylchiadau arferol, yn eithriadol yr haf hwn ac ni fyddai'n cael ei defnyddio lle mae gradd asesu canolfannau a threfn rancio ar gael.

Rydym yn ymwybodol ei bod yn bosibl y bydd rhai canolfannau wedi tynnu ymgeiswyr preifat allan cyn i ni wneud ein penderfyniadau am na allent ddarparu gradd asesu canolfan a threfn rancio. Felly, gan barhau ar sail yr eithriad hwn, gall fod yn ofynnol i ganolfannau ailgofrestru'r ymgeiswyr hyn a dynnwyd allan.

Rydym yn ymwybodol o'r ffaith y gallai mabwysiadu'r eithriad hwn godi'r cwestiwn a ddylid cymhwyso'r dull arfaethedig i bob ymgeisydd preifat (yn cynnwys y rheini sydd wedi cael data asesu canolfan) neu yn wir i bob dysgwr yr haf hwn. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y byddai hyn yn briodol gan fod y fethodoleg arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r model safoni ystadegol wedi'i chynllunio i fod yn ddull mwy dibynadwy, a chredwn y dylid cymhwyso unrhyw eithriad i'r broses gyffredinol cyn lleied â phosibl.

Fodd bynnag, bydd rhai ymgeiswyr preifat o hyd na fyddant yn gymwys ar gyfer y fethodoleg hon ac felly na fyddant yn cael gradd wedi'i chyfrifo yr haf hwn. Er ein bod am weld cynifer â phosibl o ddysgwyr yn symud ymlaen i astudiaethau pellach neu i gyflogaeth, mae'n hanfodol bod pob gradd yn cael ei phennu gan ddefnyddio proses gadarn fel bod gan bawb hyder yn y graddau hynny.

Daethom i'r casgliad ar gyfer yr ymgeiswyr preifat hynny sydd wedi sefyll rhan o'r cymhwyster fel rhan o gyfres gynharach, y defnyddir methodoleg debyg i'r un a ddefnyddir ar gyfer dysgwyr na allant sefyll pob arholiad mewn perthynas â phwnc mewn unrhyw flwyddyn arall oherwydd salwch neu resymau eithriadol eraill.

Rydym wedi penderfynu mabwysiadu Nod 1 fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad.

Rydym wedi penderfynu y dylid rhoi dull eithriadol ar waith mewn perthynas â'r ymgeiswyr preifat hynny na allant gael data asesu canolfan, ac sy'n bodloni'r meini prawf fel y nodir yn ein datganiad polisi a gyhoeddwyd ar ymgeiswyr preifat (gweler isod).

Byddwn yn cyhoeddi datganiad polisi i'r perwyl hwn ochr yn ochr â'r adroddiad hwn ar y penderfyniadau.

Nod 2: Bydd deilliannau cenedlaethol ar gyfer haf 2020 yn gymharol debyg i ddeilliannau blynyddoedd blaenorol er mwyn lleihau'r risg o annhegwch i ddysgwyr dros amser (Cwestiwn 5).

Yn y cwestiwn hwn, gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu safbwyntiau ar b'un a ddylai deilliannau cenedlaethol ar gyfer haf 2020 fod yn gymharol debyg i ddeilliannau blynyddoedd blaenorol.

O'r 4,010 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 55% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig hwn; roedd 24% yn cytuno ac yn anghytuno'n rhannol, roedd 18% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ac roedd 3% yn ansicr. Rhoddodd 1,539 o'r ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i egluro eu hymateb.

Roedd sawl sylw a gafwyd yn dangos bod rhai ymatebwyr wedi camddeall y cynnig ac wedi dehongli bod y nod hwn yn cyfeirio at y ffaith y byddai deilliannau yn gymharol debyg ar lefel canolfan, yn hytrach nag ar lefel genedlaethol. Gan ystyried hyn, mae'n bwysig nodi bod llai o ymatebwyr wedi mynegi pryderon y byddai'r deilliannau yn gymharol debyg ar lefel genedlaethol.

Roedd y rheini a oedd yn cefnogi ein cynnig o'r farn bod y nod hwn yn deg gan y byddai'n sicrhau bod canlyniadau'n gyson â blynyddoedd blaenorol ac felly na fyddai unrhyw gohort penodol o ddysgwyr dan anfantais. Roedd eraill o'r farn bod y nod ar gyfer cyflawni deilliannau 'cymharol debyg' yn gadarnhaol am y byddai'n sicrhau y gellid gwneud gwelliannau lle roedd y dystiolaeth yn cefnogi hyn.

Roedd ymatebwyr o'r farn bod hygreddd a hyder y cyhoedd mewn cynnal safonau cymwysterau yn hanfodol, a nodwyd pwysigrwydd osgoi unrhyw ganfyddiad bod cymwysterau a ddyfernir yn 2020 yn llai gwerthfawr na'r rhai a ddyfarnwyd mewn blynyddoedd yn y gorffennol neu a ddyfernir mewn blynyddoedd yn y dyfodol, na'u bod yn ddangosydd annibynadwy o gyflawniad gwirioneddol.

Er bod cytundeb cyffredinol y dylai deilliannau cenedlaethol fod yn gymharol debyg, awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y gall fod angen i ddeilliannau fod yn wahanol er mwyn sicrhau na fydd dysgwyr unigol, yn arbennig y rheini y mae eu perfformiad o amgylch ffiniau'r gradd, ar eu colled nac yn cael eu gwobrwyo'n annheg.

Nododd ymatebwyr hefyd yr anhawster o ran rhagweld sut y bydd dysgwr yn perfformio mewn arholiad, gyda rhai dysgwyr yn annisgwyl yn perfformio'n wael mewn arholiadau ac eraill yn rhagori ar ddisgwyliadau canolfan. Gan na fydd athrawon yn gallu nodi pa ddysgwyr y gall hyn fod yn berthnasol iddynt, ni fydd graddau asesu canolfannau yn unig yn gallu rhoi ystyriaeth deg i hyn.

Er mwyn sicrhau na fydd unrhyw ddysgwr dan anfantais annheg ac y gall symud ymlaen i gam nesaf ei fywyd, roedd ymatebwyr o'r farn ei bod yn rhesymol bod yn hael i ryw raddau yr haf hwn a derbyn y byddai deilliannau cenedlaethol cyffredinol ychydig yn

uwch. Roedd yr ymatebwyr hynny hefyd o'r farn na fyddai gwneud hynny yn debygol o danseilio hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau.

Ymysg pryderon eraill am safoni canlyniadau i sicrhau eu bod yn gymharol debyg roedd:

- mae'n afresymol ac yn amhriodol cymharu cohort y flwyddyn hon â chohortau eraill oherwydd yr amgylchiadau annisgwyl, a'r ffaith y bydd y broses ddyfarnu yn wahanol iawn;
- mae'n bwysig sicrhau bod graddau dysgwr yn adlewyrchiad teg o'i allu ei hun ac nad ydynt wedi cael eu haddasu i gyd-fynd â thuedd yn seiliedig ar berfformiad dysgwyr eraill.
- yr angen i gydnabod y bydd eithriad i duedd bob amser ac y dylid gwneud ymdrech i archwilio a allai hynny fod wedi bod yn wir ar lefel genedlaethol ac ar lefel canolfan;
- mae'n cyfyngu ar faint y gwelliant lle mae canlyniadau canolfannau yn gwella yn unol â'r argymhellion a roddir gan y consortia addysg rhanbarthol neu Estyn.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am esboniad pellach o ystyr 'cymharol debyg' a 'blynyddoedd blaenorol'. Roedd ceisiadau eraill am eglurder yn cynnwys cadarnhau a yw'r nod yn ymwneud â deilliannau cenedlaethol, rhanbarthol neu ar lefel canolfan. Gallwn gadarnhau bod y nod hwn yn ymwneud â deilliannau lefel genedlaethol gan fod deilliannau ar lefel is yn naturiol yn amrywio mwy o flwyddyn i flwyddyn.

Ein Hymateb

Ein prif nodau, fel y nodir mewn deddfwriaeth, yw sicrhau bod cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru yn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr ac yn ennyn hyder y cyhoedd yn y cymwysterau hynny a'r system honno. Wrth geisio cyflawni'r nodau hyn, bydd angen bob amser i bennu'r cydbwysedd priodol rhwng amrywiaeth o ystyriaethau pwysig – er bod sicrhau tegwch i'r cohort hwn o ddysgwyr yn ystyriaeth bwysig, nid dyna ddylai fod yr unig ystyriaeth.

Rhaid i ni hefyd ystyried yr angen i osgoi unrhyw achosion o darfu'n ddiangen ar y system ehangach. Er enghraifft, pe byddai dysgwyr yn cael graddau llawer uwch na'r rheini y byddent fwyaf tebygol o fod wedi'u cyflawni pe byddent wedi sefyll eu harholiadau yn ôl y disgwyl, gall hyn olygu y byddant yn gwneud dewisiadau gwahanol iawn o ran astudiaethau pellach neu gyfleoedd gyrfa. Gallai'r rhain brofi i fod yn ddewisiadau annoeth yn ddiweddarach ac efallai na fyddant o fudd iddynt.

Rydym wedi ystyried yn ofalus yr holl ymatebion a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ac rydym yn cytuno â'r ymatebwyr bod angen sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng sicrhau tegwch i'r dysgwyr hynny sy'n cael graddau mewn amgylchiadau hynod o eithriadol yr haf hwn a chynnal hygredd cymwysterau. Ar ôl meddwl, credwn y gellid gwneud yr

angen i gydbwysu'r ddau ffactor yn gliriach ac, felly, rydym wedi diwygio'r nod hwn, gan gyfeirio at degwch a'r angen i gynnal hyder y cyhoedd.

Rydym wedi penderfynu diwygio Nod 2 i gynnwys cyfeiriad at yr angen i gynnal hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau. Felly, mae'r nod hwn bellach yn darllen fel a ganlyn:

Bydd deilliannau cenedlaethol yn gymharol debyg i ddeilliannau blynyddoedd blaenorol er mwyn lleihau'r risg o annhegwch i ddysgwyr dros amser a chynnal hyder y cyhoedd.

Nod 3: Bydd y graddau terfynol a roddir i ddysgwyr yn dilyn proses deg a chadarn gan ddefnyddio'r wybodaeth a roddir i CBAC gan ganolfannau a'r model safoni ystadegol a ddatblygwyd gan CBAC ac y cytunwyd arno gyda Cymwysterau Cymru. Bydd y prosesau a fabwysiedir yn dryloyw ac yn gyflawnadwy yr haf hwn. (Cwestiwn 6)

Ar gyfer Nod 3, gwnaethom ofyn a yw'n debygol mai model safoni ystadegol sy'n defnyddio tystiolaeth hanesyddol o berfformiad canolfan a chyrhaeddiad blaenorol dysgwyr, ynghyd â data asesu canolfannau, fydd y dull gweithredu tecaf a'r dull gweithredu a fydd yn cyfrifo'r graddau mwyaf cywir.

O'r 3,669 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 57% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig hwn; roedd 27% yn cytuno ac yn anghytuno'n rhannol, roedd 14% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ac roedd 2% yn ansicr. Rhoddodd 1,478 o'r ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i egluro eu hymateb.

Roedd llawer o'r ymatebwyr a oedd o blaid ein cynnig o'r farn y byddai ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth yn rhoi darlun cyflawn o gyflawniad posibl pob dysgwr yr haf hwn ac felly mai dyna fyddai'r dull tecaf o fynd i'r afael â'r materion sy'n gysylltiedig â chanolbwyntio ar un darn o dystiolaeth ar ei ben ei hun.

Nodwyd rhai o'r manteision sy'n gysylltiedig â defnyddio model i safoni deilliannau fel a ganlyn:

- cynnig ffordd gadarn o gadarnhau cywirdeb a dibynadwyedd data asesu canolfannau, a fyddai'n lleihau'r risg o duedd neu ddiffyg gwybodaeth gan athrawon ac yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn cael deilliannau teg;
- nodi potensial ar gyfer tuedd mewn graddau asesu canolfannau yn erbyn grwpiau penodol o ddysgwyr, yn gynnwys y rheini o gefndiroedd economaidd gymdeithasol is;

- diogelu athrawon rhag cael eu herio gan ddysgwyr neu eu rhieni sy'n anfodlon ar y deilliannau;
- sicrhau cysondeb ar draws canolfannau ac o fewn iddynt.

Fel y cyfryw, roeddent o'r farn ei fod yn ddull gweithredu rhesymol oherwydd y byddai'n galluogi'r mwyafrif o ddysgwyr i gael gradd gredadwy, a fyddai'n eu helpu i wneud cynnydd.

I'r gwrthwyneb, cododd ymatebwyr amrywiaeth o bryderon ynghylch effeithiau'r cynnig hwn ar grwpiau gwahanol o ddysgwyr neu fathau o ganolfannau.

Dywedodd rhai o'r ymatebwyr wrthym eu bod yn pryderu y byddai defnyddio data hanesyddol canolfannau fel hyn yn annheg i unigolion a all fod wedi perfformio'n eithriadol o dda yr haf hwn ac y byddai perfformiad gwael blaenorol gan eraill yn effeithio ar eu graddau.

Ein Hymateb

Bydd dull gweithredu ystadegol yn golygu y bydd gradd dysgwr unigol yn cael ei llywio gan ddata asesu canolfannau, cyrhaeddiad blaenorol lle bo hynny ar gael, a pherfformiad y ganolfan yn y gorffennol. Mae hefyd yn wir y bydd y model safoni ystadegol arfaethedig yn gweithredu ar lefel canolfan ac nid ar lefel dysgwyr unigol. Felly, ni all adlewyrchu'r posibilrwydd y bydd dysgwyr unigol yn gwneud yn well neu'n waeth na'r hyn y byddai'r model wedi'i ragweld, yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd.

Rydym yn cydnabod y bydd rhai unigolion o'r farn y gallai eu perfformiad mewn arholiadau, pe byddent wedi cael eu cynnal, fod wedi golygu y byddent wedi cael gradd uwch na'r radd amcangyfrifedig y byddant yn ei chael yr haf hwn. Fodd bynnag, rydym o'r farn y bydd defnyddio data dilys a chywir drwy'r model yn fwy tebygol o fod yn deg i ddysgwyr yn gyffredinol.

Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at yr amrywiad yng nghryfder cohortau a mynegwyd pryderon ynghylch effaith proses safoni ystadegol ar ganolfannau bach a phynciau llai poblogaidd y byddai'r data yn llai dibynadwy ar eu cyfer. Cododd eraill bryderon y gallai'r model fod yn annheg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol oherwydd y gall cyrhaeddiad cohortau o'r dysgwyr hyn amrywio.

Dywedodd rhai o'r ymatebwyr wrthym hefyd eu bod wedi disgwyl gweld gwelliant nodedig yng ngraddau eu dysgwyr y flwyddyn hon o gymharu â cohortau blynyddoedd blaenorol. Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys: newidiadau mewn arferion addysgu, effaith athro neu arweinydd newydd, a thaith ddiweddar canolfan i wella – yr oeddent yn credu y gallai pob un o'r rhain fod wedi arwain at welliant cyflym mewn canlyniadau.

Roedd yr ymatebwyr hyn yn pryderu na fyddai gwelliannau o'r fath yn cael eu canfod gan ddata hanesyddol canolfannau na data ar gyrhaeddiad blaenorol, ac o ganlyniad, ei

bod yn bosibl na fydd eu dysgwyr yn cael y graddau yr oeddent yn eu haeddu. Hefyd, roeddent o'r farn y gallai hyn atal canolfannau â pherfformiad is rhag gwella deilliannau cymwysterau.

Mae popeth posibl yn cael ei wneud i sicrhau y bydd y graddau a ddyfernir y flwyddyn hon mor deg â phosibl, ond, er gwaethaf hyn, nid ydym yn gwrthwynebu'r safbwynt mewn rhai achosion y gallai dysgwyr unigol neu gohortau o ddysgwyr fod wedi gwneud yn well na'r graddau amcangyfrifedig a ddyfernir pe byddai'r arholiadau wedi cael eu cynnal yr haf hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni fod yr un mor ystyriol o'r ffaith y gallai rhai dysgwyr neu gohortau o ddysgwyr fod wedi gwneud yn waeth na'r hyn a awgrymir gan y graddau amcangyfrifedig.

Yn unol â hynny, rydym wedi ystyried yn ofalus i ba raddau y gallem gynnwys dull o gydnabod gwelliannau y gall canolfannau fod wedi disgwyl eu gweld, wedi'i gefnogi gan dystiolaeth ansoddol gadarn, efallai drwy gyflwyniad i'w ystyried gan CBAC cyn rhoi canlyniadau a/neu fel rhan o broses apelio.

I ddechrau, byddai angen dull systematig o gasglu tystiolaeth ar gyfer unrhyw broses sy'n galluogi honiadau o'r fath i gael eu gwneud, ynghyd â chyfres o feini prawf clir i alluogi CBAC i asesu'r dystiolaeth mewn ffordd gyson a theg. Byddai hyn yn golygu gosod bar uchel ar gyfer y dystiolaeth sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn ddilys ac y gellid ei hasesu, ac atal honiadau sy'n llawn bwriadau da ond na ellir eu cefnogi rhag cael eu cyflwyno. Mae'n debygol y byddai hyn yn rhoi baich sylweddol ar ganolfannau ac ar CBAC. Rydym wedi ystyried yn ofalus pa dystiolaeth y gellid ei darparu gan ganolfannau i gefnogi honiadau y byddai eu cohortau yr haf hwn wedi perfformio'n well o lawer na cohortau blynyddoedd diweddar. Nid ydym wedi gallu nodi unrhyw dystiolaeth y gellid ei chyflwyno y gellid ei hystyried mewn ffordd a fyddai'n deg i bob dysgwr a chanolfan. Nodir rhai enghreifftiau penodol o dystiolaeth bosibl a ystyriwyd gennym, ac a godwyd yn yr ymgynghoriad, isod.

Rydym wedi ystyried awgrymiadau a wnaed mewn ymateb i'n hymgyngoriad, er enghraifft, a ddylai canolfan allu cyflwyno tystiolaeth ansoddol, fel adroddiad Estyn sy'n awgrymu potensial ar gyfer gwelliant nodedig ym mherfformiad y ganolfan mewn arholiadau. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai ar lefel canolfan y caiff adroddiadau Estyn eu llunio. Felly, byddai adroddiad o'r fath yn rhoi cipolwg cyfyngedig ar berfformiad posibl cohort 2020 mewn cymhwyster. Yn bwysicach efallai, ni fydd pob canolfan wedi cael arolygiad yn ddiweddar, ac felly ni fydd yn gallu defnyddio adroddiad diweddar gan Estyn fel tystiolaeth.

Gwnaed sylwadau tebyg mewn perthynas â thystiolaeth ategol gan Consortia Addysg Rhanbarthol perthnasol. Fodd bynnag, o ystyried bod pob Consortia wedi cael y dasg o weithio gyda chanolfannau i godi safonau, a rhoi amrywiaeth o gymorth sy'n cynnwys

rhaglenni datblygiad proffesiynol ac ymyrraeth, nid ydym o'r farn y byddai hyn yn briodol oherwydd y gallai arwain at ganfyddiadau o wrthdaro buddiannau posibl.

Ymysg y rhesymau eraill a roddwyd gan ymatebwyr yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad i nodi pam eu bod wedi disgwyl gweld gwelliant nodedig yng ngraddau eu dysgwyr y flwyddyn hon o gymharu â chohortau blynyddoedd blaenorol roedd: cyflwyno Cyfnod Allweddol 4 tair blynedd o hyd, datblygu adnoddau addysgu newydd yn seiliedig ar adborth gan CBAC mewn cyfresi arholiadau blaenorol, a newid mewn staff addysgu, fel Pennaeth Adran neu uwch dîm arwain newydd. Mae newidiadau o'r fath yn digwydd bob blwyddyn, ond nid ydynt yn arwain yn gyson at welliant sylweddol mewn canlyniadau arholiadau.

Hyd yn oed pe byddai'n bosibl nodi categorïau o dystiolaeth y gellid ei hystyried mewn amgylchiadau eithriadol, gallai hyn arwain at gyflwyno gofynion annheg o ran tystiolaeth fel rhan o'r broses. Er enghraifft, ni fydd rhai canolfannau wedi gallu defnyddio prawf asesu allanol a ailadroddwyd ar draws Blynyddoedd 10 ac 11 ac sy'n dangos y gwerth ychwanegol i'r un cohort, o gymharu â chohortau eraill. Yn yr un modd, byddai tystiolaeth sy'n ymwneud â pherfformiad dysgwyr mewn arholiadau allanol, fel TGAU Mathemateg neu Mathemateg-Rhifedd ym mis Tachwedd 2019 o fudd i'r rheini sydd wedi cael eu cofrestru'n gynnar, ond byddai'n golygu bod y rheini a benderfynodd beidio â gwneud hynny o dan anfantais.

Hefyd, nid yw'n glir sut y dylid defnyddio'r dystiolaeth honno i newid canlyniadau. Byddai'n rhaid gwneud penderfyniad ym mhob achos o ran a ddylid diystyru'r model safoni ystadegol yn llwyr a dyfarnu graddau asesu canolfannau, neu a ddylid addasu'r model yn fwy neu'n llai yn lle hynny. Byddai hyn yn cyflwyno goddrychedd ychwanegol, ynghyd ag annhegwch posibl, i'r model. Byddai anghysondeb prosesau rhwng canolfannau hefyd yn cyflwyno risg o anghysondeb yn y safonau a roddir ar waith ac felly'n arwain at ganlyniadau llai teg a dibynadwy yn ein barn ni.

Gwnaethom nodi yn ein hymgyngghoriad ein bod yn ystyried bod cymhwyso'r broses safoni ystadegol mewn modd cyson yn holl bwysig er mwyn cynnal safonau yn y cymwysterau hyn y flwyddyn hon. Byddai mabwysiadu dull fel y'i disgrifir uchod yn tanseilio'r sefyllfa hon, a byddai'n anghyson â'n prif nodau, sef sicrhau bod system gymwysterau Cymru yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr a bod hyder y cyhoedd yn cael ei gynnal yn y system honno.

Ar ôl ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael i ni, ac er mwyn sicrhau bod graddau'n cael eu dyfarnu mewn ffordd mor deg â phosibl o ystyried yr amgylchiadau eithriadol yr haf hwn, rydym wedi penderfynu na fyddai'n briodol caniatáu i ganolfannau roi tystiolaeth ansoddol i nodi unrhyw amgylchiadau eithriadol y dylid eu hystyried yn eu barn nhw.

Roedd ymatebwyr hefyd yn pryderu y gall defnyddio model safoni ystadegol annog athrawon i chwyddo graddau asesu eu canolfan am eu bod yn poeni y byddai'r model yn

eu gostwng. O ystyried mai dyma'r tro cyntaf y mae canolfannau wedi gorfod llunio'r farn hon ac na wnaed unrhyw waith cymedroli ar draws canolfannau mewn perthynas â'r farn a luniwyd, mae'n debygol y bydd amrywiad sylweddol rhwng canolfannau.

Yn anffodus, nid oes unrhyw ffordd y gall y broses wahaniaethu rhwng optimistiaeth anymwybodol ar ran canolfannau, ymgais i chwyddo graddau asesu canolfannau a'r posibilrwydd y byddai dysgwyr unigol neu gohortau o ddysgwyr wedi gwneud yn llawer gwell y flwyddyn hon na'r hyn y byddai ystadegau o flynyddoedd blaenorol wedi'i ragweld.

Mae risg sylweddol os byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar raddau asesu canolfannau er mwyn ceisio lliniaru'r diffygion hyn, y byddwn yn creu rhywfaint o annhegwch i bob canolfan a'i dysgwyr. Yn benodol, byddai'n arwain at risg y byddai dysgwyr mewn canolfannau a oedd wedi chwyddo eu graddau asesu yn cael deilliannau gwell na dysgwyr mewn canolfannau a oedd wedi ceisio gwneud y peth cywir neu efallai a oedd wedi bod yn geidwadol wrth lunio barn.

Mae'n bwysig cydnabod bod gwendidau gyda'r holl ffynonellau data os cânt eu hystyried ar eu pen eu hunain, fel yr ymddengys y gwnaeth sawl ymatebydd. Fodd bynnag, bwriedir i'r model fynd i'r afael â'r gwendidau hyn cystal ag y gall drwy ddwyn tystiolaeth ynghyd i roi darlun mwy cyflawn o gyflawniad tebygol dysgwr.

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod angen mwy o fanylion arnynt ar y model safoni ystadegol i lunio barn hyddysg. Yn hynny o beth, roeddent yn ystyried bod yn rhaid i'r model terfynol fod yn dryloyw gydag eglurhad amlwg i bawb ei ddeall.

Ymysg yr agweddau ar y model y gofynnodd ymatebwyr yn benodol am ragor o wybodaeth amdanynt roedd:

- sut y bydd y drefn rancio a gyflwynir gan ganolfannau yn rhyngweithio â'r model;
- faint o bwyslais a roddir ar bob math o dystiolaeth ac o ganlyniad, y graddau y gall y model newid graddau asesu canolfannau;
- pa ddata ar gyrhaeddiad blaenorol a gaiff eu cynnwys ar gyfer pob math o gymhwyster ac i ba raddau y profwyd eu bod yn rhagfynegi deilliannau cymwysterau;
- pa ddata a gaiff eu hystyried er mwyn nodi newidiadau mewn cohort canolfan, fel nifer y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, nifer y dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu nifer y dysgwyr yr ystyrir eu bod yn fwy abl a thalentog;
- sut y byddai'r model yn cyfrif am amrywiad mewn deilliannau mewn cymhwyster;

- sut y bydd y model yn cyfrif am fylchau mewn data lle mae gan ganolfan gyfradd symudedd uchel neu lle na chaiff pob dysgwr yn y cohort hwnnw ei gofrestru ar gyfer cymhwyster penodol.

Rydym yn cydnabod yr angen i sicrhau eglurder mewn perthynas â'r model, a'r modd y bydd yn gweithredu yr haf hwn. Rydym hefyd yn ymrwymedig yn ein nod arfaethedig i sicrhau y byddai'r prosesau a roddir ar waith yn dryloyw.

Gallwn gadarnhau y bydd rhagor o wybodaeth am y model safoni ystadegol a ddatblygwyd gan CBAC, a sut y bydd yn gweithio er mwyn cyfrifo graddau, ar gael i'r cyhoedd ar ôl iddo gael ei gymeradwyo. Ein nod yw cyhoeddi gwybodaeth o'r fath ym mis Gorffennaf.

Hefyd, byddwn yn nodi'r dull gweithredu y mae'n rhaid i CBAC ei ddilyn mewn perthynas â'r broses safoni ystadegol. Rydym yn gweithio gyda CBAC wrth i ni ystyried ein gofynion rheoleiddio ac yn bwriadu cyhoeddi'r rhain ochr yn ochr â manylion y model terfynol.

Ar ôl myfyrio ar yr adborth a gafwyd i Nodau 3 a 5, sy'n ceisio disgrifio'r dulliau gweithredu y bydd y model ystadegol yn eu cymryd, rydym o'r farn bod gorgyffwrdd cynhenid rhyngddynt.

Rydym wedi penderfynu cyfuno Nodau 3 a 5 yn un nod cynhwysfawr sy'n disgrifio'r modd y bydd y model yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i gyfrifo'r graddau tebygol y byddai dysgwyr wedi'u cael yr haf hwn. Hwn fydd ein pedwerydd nod bellach, a'r un olaf.

Nod 4: Cyn belled ag y bo modd, dylem sicrhau na fydd y broses ar gyfer dyfarnu graddau yn ystod haf 2020 yn rhoi grwpiau o ddysgwyr o dan anfantais, gan gynnwys y rhai hynny â nodweddion gwarchoddedig, o gymharu â blynyddoedd blaenorol. (Cwestiwn 7)

Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi eu barn ar b'un a ddylem sicrhau, cyn belled ag y bo modd, na fydd y broses ar gyfer dyfarnu graddau yn ystod haf 2020 yn rhoi grwpiau o ddysgwyr o dan anfantais, gan gynnwys y rhai hynny â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

O'r 3,599 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 87% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig hwn; roedd 8% yn cytuno ac yn anghytuno'n rhannol, roedd 3% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ac roedd 3% yn ansicr. Rhoddodd 712 o'r ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i egluro eu hymateb.

Fel y dangosir uchod, roedd ymatebwyr yn cytuno â'r nod hwn ar y cyfan, roeddent yn falch bod anfantais bosibl wedi cael ei chydabod ac yn gobeithio bod y nod yn gyflawnadwy.

Roedd sylwadau rhai ohonynt yn canolbwyntio ar sicrhau nad yw'r pandemig yn golygu bod cohort dysgwyr y flwyddyn hon dan anfantais o gymharu â chohortau eraill, a dewisodd eraill ganolbwyntio ar sicrhau nad yw grwpiau penodol o ddysgwyr dan anfantais o gymharu â dysgwyr eraill yn yr un grŵp blwyddyn.

Roedd yr ymatebwyr a gyfeiriodd yn benodol at ddysgwyr â nodweddion gwarchoddedig yn aml yn cytuno ei bod yn bwysig cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau nad yw'r broses yn golygu eu bod dan anfantais. Nodwyd hefyd mewn rhai achosion, bod dysgwyr â nodweddion o'r fath eisoes yn agored i niwed ac felly ei bod yn hollbwysig nad oedd y broses o ddyfarnu cymwysterau yr haf hwn yn cyflwyno anfanteision ychwanegol.

Ymysg y grwpiau o ddysgwyr y nododd ymatebwyr y dylid rhoi ystyriaeth arbennig iddynt o dan y nod hwn roedd:

- dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, yn arbennig y rheini sydd wedi cael diagnosis yn ddiweddar ac nad ydynt wedi cael cymorth priodol mewn asesiadau blaenorol;
- efallai na fydd dysgwyr sydd â threfniadau mynediad ar waith, fel amser ychwanegol neu ddefnyddio ysgrifennydd, wedi cael yr un trefniadau i'w helpu mewn ffug arholiadau neu brofion dosbarth. Awgrymwyd y dylai canolfannau nodi'r dysgwyr hyn a sicrhau bod data asesu eu canolfan wedi ystyried hyn;

- dysgwyr sy'n oedolion – awgrymwyd bod graddau cyfartalog a ddyfernir i ddysgwyr sy'n oedolion yn aml yn uwch na'r rhai a ddyfernir i ddysgwyr o dan 19 oed. Gan nad oes cyrhaeddiad blaenorol ar gael ar gyfer nifer o'r dysgwyr hyn, er mwyn sicrhau nad ydynt dan anfantais y flwyddyn hon o gymharu â blynyddoedd blaenorol, awgrymwyd y gallai fod angen defnyddio model safoni gwahanol;
- bechgyn – roedd canfyddiad bod bechgyn yn aeddfedu'n hwyrach na merched ar y cyfan felly y gallai'r ffaith na allant ddangos eu gallu mewn arholiadau terfynol, a gynhelir ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd gael effaith anghymesur arnynt.

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod y dull gweithredu a amlinellir yn yr ymgynghoriad yn deg, neu mor deg ag y gallai fod yn yr amgylchiadau, oherwydd ei bod yn hanfodol bod pob dysgwr yn cael ei ddiogelu rhag y posibilrwydd o duedd gan athrawon wrth ddyfarnu graddau.

Fodd bynnag, nodwyd y gall dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig fod yn agored i duedd ymwybodol neu anymwybodol gan athrawon, a allai effeithio ar eu deilliannau. Codwyd pryderon penodol ynghylch yr effaith bosibl ar ddysgwyr o gymunedau BAME, a'r effaith bosibl ar raglenni i ehangu eu cyfranogiad mewn addysg uwch pe byddai eu graddau yn is o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Felly, roedd yr ymatebwyr hynny yn falch y byddai data asesu canolfannau yn cael eu gwirio cyn eu cyflwyno i CBAC er mwyn nodi tuedd posibl.

Cododd rhai o'r ymatebwyr bryderon ynghylch y nod am eu bod o'r farn ei bod yn bwysig na fydd unrhyw ddysgwr unigol dan anfantais ac felly roeddent yn ansicr ynghylch y ffocws ar grwpiau o ddysgwyr a'r rheini â nodweddion gwarchoddedig. Awgrymodd ymatebwyr y dylai'r nod ganolfbwyntio ar bob dysgwr, a all gynnwys dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig.

Codwyd pryderon hefyd oherwydd, drwy sicrhau na fydd dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig dan anfantais, y gall y dull gweithredu olygu bod dysgwyr eraill dan anfantais, yn enwedig y rheini sy'n wynebu rhwystrau i ddysgu ond nad oes ganddynt nodwedd warchoddedig. Ymysg yr enghreifftiau a roddwyd roedd dysgwyr o gefndiroedd economaidd gymdeithasol is, yn enwedig y rheini sy'n fwy abl a gofalwyr ifanc, fel y rheini sydd wedi bod yn helpu i ofalu am frawd neu chwaer anabl yn yr ysgol.

Er mwyn sicrhau tegwch i bob dysgwr wrth bennu data asesu canolfannau, gwnaed sawl awgrym. Roedd y rhain yn cynnwys:

- ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau gyflwyno sampl ar hap o waith i CBAC i'w gymedroli'n allanol;
- cynnwys gwybodaeth yn y Canllawiau i Ganolfannau neu ddatblygu modiwl hyfforddiant ar-lein er mwyn helpu athrawon a phenaethiaid canolfannau i ddileu tuedd ymwybodol ac anymwybodol wrth lunio barn, a ddylai gynnwys cyngor ar

safoni deilliannau yn fewnol a sicrhau bod amrywiaeth o athrawon yn rhan o'r broses;

- yr angen i ddiystyru gwaith a gwblhawyd ers i'r ysgolion gau oherwydd y bydd llai o gymorth/adnoddau wedi bod ar gael i rai dysgwyr gartref;
- annog canolfannau i werthuso'r dull a ddefnyddiwyd ganddynt i lunio eu barn a chyfrif am duedd bosibl cyn cyflwyno eu data i CBAC;
- atgoffa ysgolion o'u dyletswyddau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus;
- ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau wneud datganiad cydraddoldeb yn nodi eu bod wedi ystyried cydraddoldebau ac yn gallu dangos eu bod yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Cododd rhai o'r ymatebwyr hefyd bryderon ynghylch agweddau ar eiriad ein nod, neu gofynnwyd cwestiynau am hynny. Roedd hyn yn cynnwys y defnydd o 'cyn belled ag y bo modd', gan nad oeddent o'r farn bod hyn yn mynd yn ddigon pell i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cydraddoldebau; diffyg eglurder ynghylch ystyr 'nodweddion gwarchoddedig' yn y nod ei hun, a chyfeiriadau at 'nodi materion difrifol' a 'cyflawniad blaenorol' yn y ddogfen ymgynghori.

Ein Hymateb

Rydym wedi ystyried pob pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr, yn cynnwys yn arbennig y rheini sy'n sôn am yr angen i gynnwys cymedroli allanol fel rhan o'r broses er mwyn sicrhau y creffir ar y sail dystiolaeth ar gyfer data asesu canolfannau.

Rydym wedi ystyried a fyddai'n bosibl cynnwys haen ychwanegol o wiriadau ar gyfer tuedd systemig mewn canolfannau drwy broses cymedroli allanol.

Daethom i'r casgliad y byddai ceisio cywiro tuedd bosibl drwy'r model safoni yn arwain at newidiadau mympwyol i'r drefn rancio a ddarperir gan ganolfannau. Mae hyn am y byddai'n amhosibl nodi a wnaeth athrawon neu ganolfannau gyflwyno data asesu canolfan yr oedd tuedd wedi effeithio arnynt a, hyd yn oed lle byddai hynny'n bosibl, na ellid nodi graddau nac effaith unrhyw duedd o'r fath. Yn hytrach, rydym o'r farn ei bod yn well cefnogi canolfannau i lunio barn wrthrychol. Fodd bynnag, dylid sicrhau bod prosesau cymedroli mewnol ar waith – rydym yn disgwyl i ganolfannau gynnal proses gymedroli fel rhan o'u hymarfer arferol er mwyn sicrhau tegwch i bob dysgwr.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn, gwnaethom ddiweddarau ein canllawiau 'Gwybodaeth i Ganolfannau ar Gyflwyno Graddau Asesu Canolfannau'⁸ i gynnwys

⁸ <https://www.cymwysteraucymru.org/media/5972/gwybodaeth-i-ganolfannau-ar-gyflwyno-graddau-asesu-canolfannau-fersiwn-2-18-mai-2020.pdf>

cyfeiriadau at Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, gan atgoffa canolfannau o'u rhwymedigaethau wrth bennu gradd asesu a threfn rancio pob dysgwr. Mae'n bwysig eu hatgoffa o'r ddyletswydd hon a chydabod y dylid gosod y wybodaeth hon o fewn cyd-destun gwahanol iawn i wybodaeth debyg arall fel y graddau a ragfyneir ar gyfer ceisiadau i brifysgolion neu wrth bennu targedau. Mae CBAC hefyd wedi darparu canllawiau ychwanegol i ganolfannau ynghylch llunio'r farn honno a chyflwyno data.

O ran gofyn am y data diweddaraf ar ddysgwyr â nodweddion gwarchoddedig gan ganolfannau, gallwn gadarnhau ein bod ni a CBAC eisoes wedi cyflwyno cais ar y cyd i Lywodraeth Cymru i gasglu data o'r fath ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion a gynhelir. Bydd y data hyn yn deillio o ddata 2020 a gasglwyd ar ffurflenni cyfrifiad CYBLD ac Addysg Heblaw yn yr Ysgol gan ganolfannau ar gyfer y cofrestriadau presennol.

At ddibenion tryloywder, dylem gydnabod y bydd rhai cyfyngiadau ar y dadansoddi a fydd yn bosibl gan ddefnyddio'r data hyn mewn perthynas â'r nodweddion gwarchoddedig a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldebau. Er enghraifft, dylai fod gennym ddata ar oedran, rhyw, ethnigrwydd (fel procsi ar gyfer hil) a statws Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)/Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (fel procsi ar gyfer anabled) dysgwyr. Dylai fod gennym wybodaeth hefyd am gymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim fel mesur o anfantais economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag, nid oes data ar gael ar nodweddion fel priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol. Ni fyddai'n ymarferol nac yn gymesur casglu data o'r fath nawr.

Rydym yn anelu at ddewis model sy'n rhagfynegi graddau dysgwyr yn gywir. Byddwn yn monitro effaith y dull safoni ar raddau dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi dadansoddiad o fylchau cyrhaeddiad yn y canlyniadau terfynol a gyfrifir. Mewn perthynas â materion fel ethnigrwydd ac AAA, nad yw CBAC yn casglu data amdanynt fel mater o drefn, byddwn ni a CBAC yn parhau i ddibynnu ar allu Llywodraeth Cymru i rannu data â ni at y dibenion hyn.

Fel yr eglurwyd gennym yn ein dogfen ymgynghori, byddwn yn sicrhau y caiff data asesu canolfannau eu gwirio cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt eu darparu, a byddwn yn defnyddio data Llywodraeth Cymru i weld a oes tystiolaeth bod bylchau cyrhaeddiad sy'n gysylltiedig â nodweddion dysgwyr wedi newid yn sylweddol o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Mewn ymateb i bryderon y byddai canolfannau yn ystyried gwaith a gwblhawyd ers i'r ysgolion gau, a fyddai'n golygu bod rhai dysgwyr a fydd wedi cael llai o gymorth a/neu adnoddau gartref dan anfantais, gallwn gadarnhau bod ein canllawiau i ganolfannau yn nodi'n glir na ddylai canolfannau ofyn i ddysgwyr gwblhau unrhyw waith na chafodd ei

gwblhau ar gyfer asesiad diarholiad, ac na ddylent lunio eu barn ar sail asesiad diarholiad a gwblhawyd yn unig.

O ran geiriad y nod, roedd dryswch ynghylch pwy y bwriadwyd i'r nod hwn fod yn berthnasol iddynt, a ph'un a oedd y broses wedi'i chyfyngu i gyflwyno data asesu canolfannau. Er mwyn osgoi amheuaeth, bwriadwyd i'r broses ar gyfer rhoi graddau fel y'i disgrifir yn y nod hwn gaffael data asesu a gyflwynwyd gan ganolfannau, safoni graddau drwy'r model ystadegol ac adolygu allbynnau'r model hwnnw.

Yn yr un modd, ni fwriadwyd i'n cynnig fod wedi'i gyfyngu i ddysgwyr â nodweddion gwarchodedig yn unig, ond yn hytrach roedd yn nodi y dylai'r dull gweithredu ar gyfer dyfarnu graddau yr haf hwn fod mor deg â phosibl o ystyried yr amgylchiadau, ac na ddylai'r broses olygu bod unrhyw ddysgwr yn wynebu mantais nac anfantais yn systematig. Gan ystyried hyn, rydym o'r farn y gellid gwella'r geiriad er mwyn egluro hyn. Rydym hefyd o'r farn y gallai'r geiriad adlewyrchu'r hyn a olygir gennym wrth gyfeirio at y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig yn well.

Yn olaf, rydym wedi ystyried yn ofalus y graddau y dylid dileu cyfeiriadau at 'cyn belled ag y bo modd' er mwyn atgyfnerthu ei ymddangosiad a'i uchelgais. Drwy ei gynnwys, ni fwriedir iddo awgrymu na roddir camau lliniaru priodol ar waith, ond yn hytrach i gydnabod nad yw'r trefniadau eithriadol ar gyfer darparu canlyniadau yr haf hwn yn berffaith, ond, fel y nodir gan lawer o'r ymatebwyr, mai dyna'r opsiwn gorau posibl o dan yr amgylchiadau presennol. Yn hanfodol, bydd yn galluogi'r rhan fwyaf o ddysgwyr i symud ymlaen i astudio ymhellach neu i waith.

Rydym wedi penderfynu diwygio geiriad y Nod hwn i roi mwy o eglurder na ddylai'r broses ar gyfer dyfarnu graddau olygu bod unrhyw ddysgwr, yn cynnwys y rheini â nodweddion gwarchodedig o dan ddeddfwriaeth cydraddoldebau, yn wynebu unrhyw anfantais na mantais yn systematig. Mae'r Nod hwn bellach yn darllen fel a ganlyn:

Cyn belled ag y bo modd, ni fydd y broses ar gyfer dyfarnu graddau yn golygu bod dysgwyr, yn cynnwys y rheini â nodweddion gwarchodedig o dan ddeddfwriaeth cydraddoldebau, yn wynebu unrhyw anfantais na mantais yn systematig.

Er na fwriedir i'n nodau fod mewn trefn o ran blaenoriaeth, rydym wedi penderfynu eu haildrefnu fel mai Nod 3 yw hwn bellach. Bwriad yr aildrefnu yw sicrhau bod pob nod sy'n gysylltiedig â deilliannau ar lefel genedlaethol yn cael eu grwpio gyda'i gilydd.

Rydym wedi penderfynu newid trefn ein nodau fel mai Nod 3 yw hwn bellach.

Nod 5: Bydd y prosesau y cytunwyd arnynt ar gyfer pob math o gymhwyster yn galluogi'r nifer mwyaf o ddysgwyr i gael graddau yn seiliedig ar ddull cyffredin.

Bydd y prosesau yn defnyddio canlyniadau o gymwysterau ac unedau a gwblhawyd eisoes ac a ddyfarnwyd i ddysgwyr, lle y bo hynny ar gael. (Cwestiwn 8)

Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi eu barn ar ddefnyddio canlyniadau o unrhyw gymwysterau ac unedau a gwblhawyd ac a ddyfarnwyd eisoes er mwyn helpu i gyfrifo graddau yr haf hwn, a ph'un a oedd yn briodol y byddai'r dystiolaeth a ddefnyddir i gyfrifo graddau felly yn amrywio ar draws mathau o gymwysterau.

O'r 3,585 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 70% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig hwn; roedd 21% yn cytuno ac yn anghytuno'n rhannol, roedd 7% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ac roedd 2% yn ansicr. Rhoddodd 1,177 o'r ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i egluro eu hymateb.

O'r ymatebwyr hynny a oedd yn cefnogi ein cynnig, roedd llawer o'r farn bod y dull gweithredu yn deg oherwydd y byddai canlyniadau o gymwysterau ac unedau a gwblhawyd ac a ddyfarnwyd eisoes yn ddangosydd da o berfformiad dysgwyr o dan amodau arholiad neu asesiad o dan reolaeth, ac y byddai defnyddio prosesau gwahanol yn dibynnu ar y math o gymhwyster a'r pwnc yn debyg i'r dulliau gwahanol a ddefnyddir wrth ddyfarnu mewn amgylchiadau arferol.

Hefyd, teimlwyd gan y byddai CBAC wedi marcio a chymedroli'r asesiadau hyn, na ddylid anwybyddu tystiolaeth mor gryf a dibynadwy.

O ystyried hyn, roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y dylid rhoi mwy o bwyslais ar y ffynhonnell dystiolaeth hon yn y model safoni ystadegol, ac roedd eraill o'r farn y dylid defnyddio'r deilliannau hyn fel y brif sail ar gyfer cyfrifo graddau, yn arbennig lle roedd dysgwyr eisoes wedi cwblhau cyfran sylweddol o'r cymhwyster, er enghraifft TGAU Llenyddiaeth Saesneg a Gwyddoniaeth. Yn yr achos hwn, roeddent o'r farn na ddylai gradd amcangyfrifedig fod yn is na'r graddau uned a ddyfarnwyd eisoes.

Cafwyd pryderon ynghylch y nod hwn gan ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig, ond a oedd am fynegi rhywfaint o amheuan hefyd, a'r rheini a oedd yn anghytuno neu'n ansicr.

Cododd ymatebwyr y pryderon canlynol ynghylch y defnydd o gyrhaeddiad mewn cymwysterau neu unedau a ddyfarnwyd eisoes:

- pe byddai cyrhaeddiad blaenorol mewn uned yr oedd dysgwr ar fin ei hailsefyll yr haf hwn yn cael ei gynnwys yn y model safoni, teimlwyd nad oedd yn debygol y byddai'r dysgwr hwnnw yn cael gradd deg. Ar gyfer y dysgwyr hyn, teimlwyd y dylid dibynnu ar ddata asesu canolfannau oherwydd y bydd athrawon yn gallu cyfrif am berfformiad gwell dros y flwyddyn ddiwethaf;
- pe byddai graddau a gyflawnwyd mewn unedau Uwch Gyfrannol (UG) yr oedd dysgwyr ar fin eu hailsefyll yr haf hwn yn cael eu cynnwys yn y model safoni ystadegol, byddai dysgwyr yng Nghymru dan anfantais o gymharu â'u cyfoedion

- yn Lloegr gan nad yw dysgwyr yn sefyll arholiadau UG, ac o ganlyniad, ni all perfformiad gwael ar lefel UG ostwng gradd Safon Uwch dysgwr;
- mae dysgwyr yn fwy tebygol o fod wedi gwneud cynnydd ers eu hasesiad cymwysterau blaenorol, er enghraifft, mae llawer o ddysgwyr yn perfformio'n well ar lefel Safon Uwch nag ar lefel UG.
 - dylid cyfyngu ar ddata ar gyrhaeddiad blaenorol i ddeilliannau o'r flwyddyn academaidd hon;
 - dim ond yn yr un pwnc ag y cofrestrwyd ar ei gyfer y flwyddyn hon y dylid ystyried cyrhaeddiad blaenorol. Ystyriwyd y byddai'n annheg i radd dysgwr sydd â chryfder mewn pynciau creadigol, fel Celf, fod yn seiliedig ar bwnc oedd yn fwy heriol iddo;
 - mae'n bosibl na fydd y graddau amcangyfrifedig yn adlewyrchu gallu cyffredinol dysgwr yn y pwnc hwnnw am fod gan unedau amcanion asesu gwahanol ac yn aml maent yn asesu sgiliau gwahanol, er enghraifft caiff asesiad llafar mewn TGAU Saesneg laith yn aml ei gwblhau gyntaf ac mae'n profi sgîl wahanol i'r arholiadau ysgrifenedig;
 - gallai amrywiad mewn dull gweithredu wrth gwblhau asesiad diarholiad arwain at anghysondebau mewn deilliannau ar draws canolfannau.

Gofynnodd ymatebwyr hefyd am eglurder ynghylch sut y byddai'r model yn ymdrin â dysgwyr nad oedd unrhyw unedau na chymwysterau wedi'u dyfarnu ar eu cyfer eto.

Ein Hymateb

Wrth ddatblygu, profi a chytuno ar y model safoni ystadegol â CBAC, ein nod cyffredinol yw sicrhau cyn belled â phosibl ac i'r graddau uchaf, y defnyddir dull gweithredu cyffredin a chyson ar draws canolfannau, ac y defnyddir yr amrywiaeth mwyaf priodol o dystiolaeth ar gyfer pob math o gymhwyster. Rydym o'r farn mai'r dull gweithredu hwn sydd fwyaf tebygol o sicrhau tegwch i ddysgwyr yn gyffredinol.

Mewn ymateb i bryderon am effaith y model ar ddysgwyr sy'n ailsefyll, neu yn wir ar ganolfannau nad oes ganddynt lawer o ddata ar gyrhaeddiad blaenorol, os o gwbl, rydym wrthi ar hyn o bryd yn profi cywirdeb rhagfynegiadol gwahanol fodolau ac yn rhoi sylw gofalus i achosion o'r fath. Yn ogystal, credwn y bydd gallu'r model i ddibynnu ar nifer o ffynonellau tystiolaeth er mwyn ystyried ffactorau o'r fath yn ymdrin â rhai o'r pryderon hyn.

Mae hefyd yn bwysig nodi mai data ar gyrhaeddiad blaenorol yn ei ystyr ehangach, sef nid dim ond cyrhaeddiad blaenorol mewn asesiadau a gynhaliwyd eisoes ar gyfer cymwysterau a ddyfernir yr haf hwn (e.e. unedau TGAU a safwyd ym Mlwyddyn 10 yr haf diwethaf), yw'r unig ffordd ystadegol o addasu canlyniadau a ddyfernir mewn

canolfannau oddi wrth ganlyniadau hanesyddol a gyflawnwyd gan gohortau blaenorol. Er ein bod yn cydnabod nad yw hon yn sefyllfa berffaith, nid ydym o'r farn bod dewisiadau amgen gwell.

Mae'n bwysig ein bod yn profi cywirdeb rhagfynegiadol y model safoni cyn llunio barn bendant ar yr amrywiaeth o dystiolaeth a ddefnyddir ar gyfer gwahanol fathau o gymwysterau, a faint o bwyslais a roddir ar y ffynonellau tystiolaeth gwahanol hyn (gweler Nod 3 uchod).

Fel yr eglurwyd yn ein hymateb i'r adborth ar Nod 3, byddwn yn cyhoeddi manylion ar y model safoni ystadegol terfynol, a sut y bydd yn gweithio er mwyn cyfrifo graddau ym mis Gorffennaf.

Fel yr eglurwyd yn Nod 3 uchod, rydym o'r farn bod gorgyffwrdd cynhenid rhwng Nod 3 a Nod 5. O'r herwydd, rydym wedi penderfynu cyfuno'r ddau nod sy'n ceisio disgrifio'r dulliau gweithredu y bydd y model ystadegol yn eu defnyddio.

Rydym wedi penderfynu cyfuno Nodau 3 a 5 yn un nod cynhwysfawr sy'n disgrifio'r modd y bydd y model yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i gyfrifo'r graddau tebygol y byddai dysgwyr wedi'u cael yr haf hwn. Hwn fydd ein pedwerydd nod bellach, a'r un olaf.

Er mwyn bod yn gryno, rydym hefyd wedi penderfynu dileu'r holl gyfeiriadau at haf 2020 o bob nod gan fod pob nod yn berthnasol i'r broses o roi graddau yn haf 2020.

Nodau Terfynol

Mae ein nodau a fydd yn ategu'r model safoni ystadegol ar gyfer rhoi graddau i ddysgwyr yr haf hwn fel a ganlyn:

Nod 1: Bydd dysgwyr y cyflwynir gradd asesu canolfannau lefel cymhwyster a threfn rancio ar eu cyfer yn cael gradd. [Gan nodi y bydd trefniadau ar waith hefyd a fydd yn caniatáu i ymgeiswyr preifat na chyflwynir gradd asesu canolfannau neu drefn rancio iddynt, ond sydd wedi cwblhau unedau asesu digonol i gael gradd hefyd yn seiliedig ar eu cyrhaeddiad blaenorol.]

Nod 2: Bydd deilliannau cenedlaethol yn debyg i ddeilliannau blynyddoedd blaenorol er mwyn lleihau'r risg o annhegwch i ddysgwyr dros amser a chynnal hyder y cyhoedd.

Nod 3: Cyn belled ag y bo modd, ni fydd y broses ar gyfer dyfarnu graddau yn golygu bod dysgwyr, yn cynnwys y rheini â nodweddion gwarchoddedig o dan ddeddfwriaeth cydraddoldebau, yn wynebu unrhyw anfantais na mantais yn systematig.

Nod 4: Bydd y model safoni ystadegol yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i gyfrifo'r graddau tebygol y byddai dysgwyr wedi'u cyflawni pe byddent wedi gallu cwblhau eu hasesiadau.

Cynnig 2: Cyflwyno proses apelio arbennig ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020

Ar gyfer y broses apelio, gwnaethom ofyn am safbwyntiau ar nodweddion y broses apelio arfaethedig i'w chyflwyno ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020. Gofynnodd yr ymgynghoriad saith cwestiwn, gyda phob un yn canolbwyntio ar nodwedd benodol o'r broses arfaethedig.

Byddwn yn ymdrin â phob un o'r cwestiynau hynny yn eu tro isod.

Barn broffesiynol a gweithdrefnau canolfannau (Cwestiwn 9)

Fel rhan o'r ymgynghoriad, gwnaethom ofyn am safbwyntiau ar ein cynigion na ddylai dysgwyr allu apelio yn erbyn y farn broffesiynol sy'n sail i raddau asesu canolfannau a threfn rancio, nac yn erbyn y weithdrefn a ddefnyddiwyd gan eu canolfan i lunio'r farn honno.

O'r 3,476 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 33% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'n cynnig; roedd 19% yn cytuno ac yn anghytuno'n rhannol, roedd 46% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ac roedd 3% yn ansicr. Rhoddodd 1,637 o'r ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i egluro eu hymateb. Yn yr achos hwn, roedd mwy o ddysgwyr, rhieni a gofawyr yn anghytuno na'r mathau eraill o ymatebwyr.

Ailbwysleisiodd llawer o'r rheini a oedd o blaid ein cynnig rannau helaeth o'r rhesymeg a godwyd yn ein dogfen ymgynghori. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- mai athrawon sydd yn y sefyllfa orau i lunio'r farn hon;
- yr angen i ddiogelu athrawon rhag dylanwad allanol wrth lunio eu barn;
- diffyg meincnod neu safon gyffredin ar gyfer gwerthuso barn broffesiynol, neu werthusiad canolfan a'r defnydd o'r farn honno wrth bennu graddau asesu canolfannau, yn eu herbyn;
- gallai caniatáu apeliadau ar y sail hon o bosibl lethu'r system a tharfu ar yr addysgu a'r dysgu yn y flwyddyn ysgol nesaf.

O'r ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn, roedd llawer o'r farn fod angen system apelio fel ffordd o unioni camau er mwyn sicrhau democratiaeth ac egwyddorion cyfiawnder naturiol. I'r perwyl hwnnw, roeddent o'r farn ei bod yn anheg gwrthod y cyfle i ddysgwyr apelio gan fod hynny'n golygu nad oeddent yn rhan o broses

gwneud penderfyniadau a oedd yn effeithio arnynt, ac y gallai hyn fod yn groes i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn⁹.

Er eu bod yn ystyriol o'r angen i ganiatáu i athrawon lunio barn broffesiynol heb unrhyw ddylanwad allanol amhriodol, roedd ymatebwyr eraill yn parhau o'r farn y dylid gallu craffu ar y farn honno. Roeddent o'r farn y byddai gwahardd apeliadau ar y sail hon yn arwain at ganfyddiad nad oedd buddiannau dysgwyr mor bwysig â buddiannau canolfannau a CBAC, nad oedd unrhyw atebolrwydd na thryloywder yn gysylltiedig â'r broses, ac y byddai hyn, yn y pen draw, yn tansailio hyder y cyhoedd yn y system gymwysterau.

Ein Hymateb

O ystyried y teimladau cryf a fynegwyd gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn, rydym wedi ystyried yn ofalus sut y gallai dysgwr herio barn broffesiynol canolfan am y radd asesu a roddwyd iddo gan y ganolfan a/neu ei safle yn y drefn rancio ar gyfer cymhwyster.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu bod sawl rheswm pam y gallai dysgwr fod yn awyddus i apelio. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mae'r dysgwr o'r farn bod ei ganolfan wedi tanamcangyfrif ei berfformiad tebygol yn yr arholiadau, pe byddai'r arholiadau hynny wedi cael eu cynnal, o bosibl oherwydd tuedd yn ei erbyn neu nad oedd gan yr athro neu'r ganolfan yr holl wybodaeth berthnasol er mwyn llunio barn gywir;
- nad oedd ei berfformiad mewn ffug arholiadau, gwaith dosbarth ac asesiadau ffurfiannol eraill o reidrwydd yn adlewyrchu ei berfformiad tebygol o dan amodau arholiad.

Mewn ymateb i bryderon y gall canolfannau danamcangyfrif graddau asesu canolfannau, mae'n bwysig pwysleisio ein disgwyliad clir, fel y nodir yn y canllawiau a gyhoeddwyd gennym, bod yn rhaid i raddau asesu canolfannau adlewyrchu'r radd fwyaf tebygol y byddai dysgwr wedi'i chael pe byddai wedi sefyll ei arholiadau yr haf hwn ac wedi cwblhau unrhyw asesiad diarholiad. Felly, er y gellir defnyddio perfformiad mewn ffug arholiadau, gwaith dosbarth ac asesiadau ffurfiannol eraill, byddem yn ailbwysleisio y dylid llunio barn broffesiynol gyfannol wrth bennu graddau asesu canolfannau ar gyfer pob dysgwr, gan gydbwysu'r gwahanol ffynonellau tystiolaeth sydd ar gael.

Mae CBAC wedi darparu canllawiau ychwanegol i ganolfannau ynghylch llunio'r farn honno a chyflwyno data i CBAC. Rydym hefyd wedi cyhoeddi rhagor o wybodaeth i

⁹ Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn - https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC_united_nations_convention_on_the_rights_of_the_child.pdf

benaethiaid canolfannau, yn eu hatgoffa o'u rhwymedigaethau mewn perthynas â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth bennu'r radd y byddai pob dysgwr wedi'i chyflawni, fwy na thebyg, pe byddai wedi sefyll ei arholiadau, a threfn rancio ar gyfer pob dysgwr. Mae'n bwysig eu hatgoffa o'r ddyletswydd hon a chydabod y dylid gosod y wybodaeth hon o fewn cyd-destun gwahanol iawn i wybodaeth debyg arall fel y graddau a ragfynegir ar gyfer ceisiadau i brifysgolion neu wrth bennu targedau.

Ac eithrio yn yr achosion hynny lle y gwnaed camgymeriad gweinyddol, a ystyrir isod, byddai apelio ar y sail hon i CBAC yn gofyn am rywun â thystiolaeth gyfyngedig yn unig nad oedd yn meddu ar ddealltwriaeth lawn o alluoedd dysgwr dros gyfnod o amser i werthuso'r farn broffesiynol a oedd yn sail i raddau asesu'r ganolfan a'r penderfyniadau a wnaed gan y ganolfan am y drefn rancio, a phenderfynu a oedd y farn honno yn gywir.

Yn ein hymgyngoriad, gwnaethom egluro gan nad oes unrhyw asesiad cyffredin i lywio'r farn broffesiynol a wneir, nad oes unrhyw feincnod na ffurf safonol o dystiolaeth y gallai adolygwr neu wneuthurwr penderfyniad apêl ei defnyddio i werthuso'r farn honno yn ei herbyn.

Gwnaethom egluro hefyd nad oeddem o'r farn bod unrhyw un mewn gwell sefyllfa i lunio'r farn hon gan y bydd athrawon wedi ymgysylltu â'u dysgwyr drwy gydol y cwrs astudio, mai nhw sy'n meddu ar y ddealltwriaeth orau o'u galluoedd a sut maent yn cymharu â dysgwyr eraill yn y ganolfan honno sy'n sefyll y cymhwyster y flwyddyn hon, ac mewn blynyddoedd blaenorol.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod yn rhaid i'r dull gweithredu yr haf hwn gynnwys proses gymedroli fewnol ac allanol sy'n cynnig cyfleoedd i graffu ar y sail dystiolaeth ar gyfer yr asesiadau. Fel yr eglurir uchod (*gweler y cynnig mewn perthynas â Nod 4*), o ran prosesau cymedroli mewnol, rydym yn disgwyl i ganolfannau gynnal proses gymedroli fel rhan o'r broses hon ac fel rhan o'u harferion arferol er mwyn sicrhau tegwch i bob dysgwr.

Er gwaethaf yr ymdrechion gorau gan ganolfannau, mae'n bosibl y bydd yna adegau pan fydd dysgwyr o'r farn bod eu canolfan wedi gwneud gwall neu wedi dangos rhyw fath o duedd. Mewn achosion o'r fath, dylai'r dysgwr godi'r mater â'i ganolfan. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno cwyn y byddai angen i'r ganolfan ei hun ymchwilio iddi, neu fel arall gyflwyno tystiolaeth o duedd i CBAC a fyddai wedyn yn ymchwilio i'r mater fel achos honedig o gamymddwyn gan y ganolfan.

Mae ein gofynion rheoleiddiol presennol yn caniatáu i CBAC gywiro canlyniadau lle y bydd yn penderfynu eu bod yn anghywir oherwydd achos o gamymddwyn neu gamweinyddu. Er y bydd y gofyniad hwn yn parhau'n weithredol yr haf hwn, mae'n bwysig nodi y bydd cyfrifoldeb ar yr achwynydd i brofi'r achos, ac y byddai angen cyflwyno tystiolaeth sylweddol i ategu'r achos gydag unrhyw gwynion o'r fath a gyflwynir i CBAC.

O ran apeliadau sy'n ymwneud â'r weithdrefn a ddefnyddiwyd gan ganolfan, nid oeddem o'r farn ei bod yn ymarferol nac yn briodol nodi unrhyw weithdrefn na thystiolaeth benodol y mae'n rhaid i ganolfannau ei defnyddio i ategu barn broffesiynol. Wrth geisio gwneud hynny, byddai angen i unrhyw ofyniad ar gyfer cyfres gyffredin o dystiolaeth fod yn gul er mwyn caniatáu ar gyfer yr amrywiad eang rhwng canolfannau; byddai'r canolfannau hynny â mwy o dystiolaeth yn cael eu hatal rhag ei defnyddio er mwyn sicrhau cysondeb â'r canolfannau â'r swm lleiaf o dystiolaeth.

Gan nad oes gweithdrefn ddiffiniedig o hyd, erys yn aneglur ar ba sail y gallai dysgwr apelio yn erbyn proses neu weithdrefnau canolfan. Nid ydym o'r farn bod unrhyw rai o'r atebion a awgrymwyd yn yr ymatebion a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn ddichonadwy o ystyried yr amgylchiadau.

Gan gydnabod y posibilrwydd y gallai canolfannau wneud camgymeriadau gweinyddol wrth goladu data asesu'r ganolfan, neu wrth gyflwyno'r data hynny i CBAC, gwnaethom ymgynghori ar gynnyg y dylai dysgwyr allu gofyn i'w canolfan adolygu cywirdeb y data a gyflwynwyd ganddi, ac os bydd y ganolfan yn nodi ei bod wedi gwneud gwall, neu os bydd o'r farn bod CBAC wedi gwneud gwall wrth brosesu data'r ganolfan, dylai'r ganolfan gyflwyno apêl (*gweler Gweithdrefnau CBAC – Cwestiwn 10*). Yn ogystal â chyflwyno cam diogelu ychwanegol, credwn y bydd hyn hefyd yn gweithredu fel hawl weithdrefnol sy'n rhoi cyfiawnder naturiol i ddysgwyr.

Rydym wedi penderfynu mabwysiadu ein cynnyg na ddylem roi cyfle i ddysgwyr herio eu gradd asesu gan ganolfan na'u safle yn nhrefn rancio'r ganolfan drwy apêl i CBAC.

Credwn fod hyn yn unol â chyfarwyddyd y Gweinidog Addysg i Cymwysterau Cymru sy'n datgan y dylid cynnyg llwybr unioni i'r dysgwyr hynny nad ydynt o'r farn bod y broses wedi cael ei dilyn yn gywir wrth roi eu gradd.

Fodd bynnag, bydd dysgwr yn gallu gofyn i'w ganolfan gadarnhau a yw wedi gwneud gwall wrth gyflwyno data asesu'r ganolfan ar ei gyfer.

Bydd hefyd yn gallu gwneud cwyn i'w ganolfan os bydd ganddo dystiolaeth o duedd neu dystiolaeth y gwahaniaethwyd yn ei erbyn; gallai hefyd gyflwyno tystiolaeth o'r fath i CBAC a allai ymchwilio i achos posibl o gamymddwyn ar yr amod y caiff tystiolaeth sylweddol ei chyflwyno i ategu'r achos.

Gweithdrefnau CBAC (Cwestiwn 10)

Gwnaethom gynnyg y dylai canolfannau allu apelio ar y sail bod CBAC wedi gwneud gwall gweithdrefnol, gan gynnwys ei fod wedi defnyddio'r data anghywir wrth gyfrifo gradd a/neu ei fod wedi dyrannu neu gyfathrebu'r graddau a gyfrifwyd yn anghywir (Cwestiwn 22). Nodwn fod 'data anghywir' yn cynnwys gwallau yn y data a gyflwynwyd gan y ganolfan i CBAC, neu ddata a ddyrannwyd yn anghywir gan CBAC.

O'r 3,387 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 85% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, roedd 9% yn cytuno ac yn anghytuno'n rhannol, roedd 3% o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ac roedd 4% yn ansicr. Rhoddodd 695 o'r ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig i egluro eu hymateb.

Er bod cefnogaeth gref o blaid y cynnig hwn, cododd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch sut y byddai'n gweithio'n ymarferol gan ofyn am eglurder ynghylch yr hyn a gâi ei ystyried yn 'ddata anghywir', yn enwedig o ran p'un a oedd yn cynnwys defnyddio data hanesyddol anghywir. Bydd ein gofynion rheoleiddiol ar gyfer yr haf hwn yn nodi'n glir yr hyn a gaiff ei ystyried yn 'ddata anghywir'.

Codwyd hefyd y risg y gellid camddefnyddio'r cyfle hwn, er enghraifft, gallai canolfan, gan wybod y câi graddau ei dysgwyr eu diogelu (*gweler y penderfyniad ar atal graddau is i'r dysgwyr hynny na chânt eu nodi fel rhan o apêl [Cwestiwn 12]*) honni ei bod wedi gwneud camgymeriad â'r data a ddarparwyd ganddi er mwyn gwella graddau ei dysgwyr. O'r ymatebwyr hynny a gododd bryderon o'r fath, roedd un yn gadarn o'r farn bod yn rhaid egluro y byddai'r ganolfan yn destun ymchwiliad camymddwyn / camweinyddu.

Fel yr eglurwyd gennym yn ein dogfen ymgynghori, o ystyried y disgwyliadau clir i ganolfannau sicrhau nid yn unig bod y data a gyflwynir yn gywir, ond eu bod hefyd wedi'u hategu gan ddatganiad gan Bennaeth y Ganolfan, rydym yn disgwyl mai dim ond achosion eithriadol fydd yr apeliadau a gyflwynir i CBAC ar y sail hon. Lle y bydd achosion o'r fath yn codi, disgwylir i ganolfannau lunio data o safon uchel a thystiolaeth gadarn i CBAC er mwyn cadarnhau honiadau o'r fath. I'r perwyl hwnnw, byddem yn disgwyl i CBAC ymdrin â throseddau lluosog o'r natur hon fel achosion posibl o gamymddwyn / camweinyddu yn unol â'n Hamodau presennol.

Rydym wedi penderfynu y dylem fabwysiadu ein cynnig y dylai canolfan allu apelio i CBAC ar y sail ei fod wedi defnyddio'r data anghywir wrth gyfrifo graddau, a/neu ei fod wedi dyrannu neu gyfathrebu'r graddau amcangyfrifedig yn anghywir.

Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC gyhoeddi gwybodaeth am ei drefniadau apelio.

Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC roi'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i gyfrifo canlyniad a roddwyd i ddysgwr i ganolfan, ar gais. Rhaid i'r wybodaeth hon fod yn ddigonol a chaniatáu digon o amser i ganolfannau ystyried a fyddant yn gofyn am apêl.

Rydym yn ymwybodol o'r ymatebion, ac o'r trafodaethau a gafwyd ag amrywiol randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn, bod pryderon y bydd y model safoni a ddefnyddir gan CBAC yn tybio bod y cynnydd a wnaed gan gohort 2020 canolfan yn unol â'r cynnydd a wnaed gan ei dysgwyr yn ystod blynyddoedd blaenorol.

Rydym hefyd yn ymwybodol o bryderon rhai canolfannau y gallai fod achosion lle na fyddai'r data hanesyddol yn addas i bob dysgwr neu bob math o ganolfan am na fyddent yn cofnodi gwelliant nodedig disgwylidig o ran graddau eu dysgwyr yr haf hwn o gymharu â chohortau blynyddoedd blaenorol, neu am na fyddent yn ystyried nodweddion penodol canolfannau.

Rydym yn cydnabod y gallai hyn olygu y byddai canolfannau o'r fath yn teimlo'n anfodlon â chanlyniadau'r haf hwn, ac yn ddig na chawsant unrhyw gyfle i gyflwyno cais i ystyried rhai amgylchiadau eithriadol.

Roedd yr atebion amgen a awgrymwyd gan ymatebwyr yn cynnwys caniatáu i ddeilliannau'r model safoni ystadegol gael eu herio, neu fel arall y dylid ei gwneud yn ofynnol o leiaf i CBAC ddarparu digon o wybodaeth i ganolfannau am y ffordd y caiff y model safoni ystadegol ei ddefnyddio i gyfrifo canlyniadau yr haf hwn. Roedd yr ymatebwyr hynny o'r farn y byddai darparu'r olaf yn sicrhau bod y broses yn dryloyw, yn cynnal hyder y cyhoedd yn y canlyniadau a roddir i ddysgwyr yr haf hwn, yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd canolfannau yn gallu nodi unrhyw wallau y gallai CBAC fod wedi'u gwneud wrth gymhwyso ei weithdrefnau ac o bosibl yn lleihau'r nifer o apeliadau di-sail.

O ran caniatáu i ddeilliannau'r model safoni ystadegol gael eu herio, er mwyn osgoi ailadrodd, rydym wedi ymdrin â'r rheini yn ein hymateb i Nod 3 (gweler uchod).

Byddwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC roi trefniadau ar waith i roi'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r canlyniad i ganolfan, ar gais. Rhaid i'r trefniadau hyn ddarparu digon o wybodaeth a chaniatáu digon o amser i ganolfannau ystyried a fyddant yn gofyn am apêl.

Fel y cadarnhawyd uchod, caiff manylion am y model, a sut y bydd yn gweithio er mwyn cyfrifo graddau, eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf.

Pwy ddylai allu cyflwyno cais am apêl (Cwestiwn 11)

Gwnaethom ofyn am safbwyntiau ar ein cynnig y dylem ond disgwyl i CBAC ystyried apeliadau a gyflwynir gan ganolfannau, ac nid y rhai hynny a gyflwynir gan ddysgwyr unigol.

Roedd cydbwysedd cyffredinol o ran cryfder barn mewn perthynas â'r cynnig hwn, gyda 40% yn cytuno neu'n anghytuno'n gryf â'n cynnig; 20% yn cytuno ac yn anghytuno'n rhannol, 36% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf a 4% yn ansicr. Unwaith eto, dysgwyr, rhieni a gofawyr oedd y rhan fwyaf o'r rheini a oedd yn anghytuno.

Gwnaed y sylwadau canlynol gan y rheini a oedd o blaid y cynnig:

- mae'n gyson â'r cynnig i beidio â chaniatáu i ddysgwyr apelio yn erbyn barn broffesiynol athrawon;

- byddai caniatáu i ddysgwyr unigol apelio ar y sail nad ydynt yn cytuno â'r graddau yn tanseilio ymddiriedaeth yn y proffesiwn addysgu;
- posibilrwydd y câi'r system ei llethu gan nifer uchel o apeliadau di-sail yn seiliedig ar dystiolaeth gredadwy gyfyngedig;
- mae'r canolfannau mewn sefyllfa well i gyflwyno apêl ar ran dysgwr gan y gall gael gafael ar yr holl ddata am y dysgwr a ddarparodd y sail ar gyfer gradd asesu'r ganolfan a'r drefn rancio.

Roedd y dadleuon a gyflwynwyd o blaid caniatáu i ddysgwyr unigol apelio'n uniongyrchol i CBAC yn canolbwyntio'n bennaf ar bryderon gan fyfyrwyr a rhieni neu ofalwyr na fyddai eu canolfan o bosibl yn barod i gyflwyno apêl am amrywiaeth o resymau. Ailbwysleisiodd ymatebwyr eraill sylwadau a wnaed mewn perthynas â chwestiynau eraill ynghylch hawl unigolion i apelio, a'r gydberthynas rhwng yr hawl honno a chyfiawnder naturiol.

Yn gyntaf, mae'n bwysig nodi nad yw ein cynnig ar gyfer yr haf hwn yn newid yr arferion arferol ar gyfer trefniadau adolygu ac apelio – mai dim ond ceisiadau gan ganolfan y bydd CBAC yn eu derbyn, yn hytrach na gan ddysgwyr eu hunain; caniateir ceisiadau uniongyrchol gan ymgeiswyr preifat er yr argymhellir y dylent ofyn am gyngor ac arweiniad gan y ganolfan a'u cofrestrodd.

Er nad yw'r trefniadau arfaethedig yn cynnig y cyfle i ddysgwyr apelio'n uniongyrchol i CBAC, nid ydym yn cytuno bod hynny'n golygu nad oes unrhyw lwybr unioni ar gael i ddysgwyr. Yn gydnaws ag arferion arferol, gellir cyflwyno sylwadau i bennaeth y ganolfan a gofrestrodd y dysgwr er mwyn iddo gyflwyno apêl ar ran y dysgwr hwnnw.

Er mwyn ymdrin â phryderon na fyddai canolfan o bosibl yn awyddus i gyflwyno apêl ar ran dysgwr, rydym wedi ystyried yn ofalus p'un a ddylem ddyblygu'r ddarpariaeth sy'n berthnasol fel arfer, lle y mae CBAC yn ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau roi proses fewnol ar waith lle y gall dysgwr herio penderfyniad canolfan i beidio ag apelio ar ran y dysgwr.

O ystyried y safbwyntiau cryf ynghylch sicrhau bod llwybr unioni ar gael yn uniongyrchol i ddysgwyr, a'r ffaith bod y gofyniad hwn eisoes ar waith o dan amgylchiadau arferol, credwn y dylid cynnwys gofyniad tebyg ar gyfer yr haf hwn.

Yn ymarferol, bydd hyn yn golygu y gall dysgwr sydd o'r farn y gwnaed camgymeriad gweinyddol yn gallu gofyn i'w ganolfan ystyried apêl ar y sail hon. Os bydd y ganolfan yn gwrthod, bydd ddysgwyr yn gallu apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw i rywun arall o fewn y ganolfan neu a benodwyd gan y ganolfan.

Rydym wedi penderfynu mabwysiadu ein cynnig y dylem ond disgwyl i CBAC ystyried apeliadau a gyflwynir gan ganolfannau, ac nid y rhai hynny a gyflwynir yn uniongyrchol gan ddysgwyr unigol.

Rydym hefyd wedi penderfynu y bydd y gofynion rheoleiddiol ar gyfer haf 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC sicrhau bod canolfannau yn rhoi cyfle i ddysgwyr apelio o fewn y ganolfan:

- (iii) yn erbyn penderfyniad canolfan i beidio â cheisio unrhyw wybodaeth sydd gan CBAC y byddai ei hangen ar gyfer apêl; a/neu**
- (iv) i beidio ag apelio i CBAC.**

Atal graddau is i'r dysgwyr hynny na chânt eu nodi fel rhan o apêl (Cwestiwn 12)

Gwnaethom ofyn am safbwyntiau ar y graddau y dylid atal CBAC rhag gostwng graddau lle y caiff gwallau sy'n effeithio ar ddysgwyr ac eithrio'r rheini a enwyd mewn apêl eu canfod drwy'r broses apelio.

Roedd 70% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf; roedd 13% yn cytuno ac yn anghytuno'n rhannol, roedd 12% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ac roedd 5% yn ansicr.

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'n cynnig yn gwneud hynny ar y sail y byddai'n sicrhau tegwch i'r dysgwyr hynny a oedd yn fodlon ar eu deilliannau ac nad oeddent am gymryd rhan mewn proses apelio. Awgrymwyd hefyd y byddai caniatáu i raddau dysgwyr eraill gael eu gostwng yn golygu y byddai canolfannau yn amharod i gyflwyno apeliadau gan y byddent am ddiogelu graddau'r dysgwyr hynny.

Cyfeiriodd ymatebion eraill at yr effaith emosiynol negyddol bosibl y gallai gostwng graddau ei chael ar ddysgwyr, yr angen i sicrhau proses apelio effeithlon a'r risg o danseilio canolfannau ac ymddiriedaeth yn y system fel rhesymau pam y dylid mabwysiadu'r cynnig hwn.

I'r gwrthwyneb, roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno â'n cynnig yn gwneud hynny ar y sail bod cywiro pob gwall a sicrhau cywirdeb nid yn unig yn fater o degwch a chyfiawnder naturiol ond y gallai methu â gwneud hynny o bosibl darfu ar y system ehangach. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddai dysgwr sy'n cael graddau uwch nag y dylai fod wedi'u cael yn gwneud dewisiadau gwahanol iawn o ran astudiaethau pellach neu gyfleoedd gyrfa.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder ynghylch y posibilrwydd y gallai canfod gwall arwain at oblygiadau posibl ehangach. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- i ba raddau y byddai angen ailredeg y model safoni ystadegol ei hun er mwyn sicrhau bod y deilliannau cenedlaethol yn parhau'n gymharol debyg yn dilyn apêl;
- a fyddai effaith ar ddysgwyr nad oeddent yn gysylltiedig ag apêl gan ganolfan benodol;
- a fyddai apêl lwyddiannus a fyddai'n arwain at wella gradd dysgwr yn golygu y byddai graddau dysgwyr eraill hefyd yn cael eu gwella;

- a fyddai gostwng gradd dysgwr yn dilyn apêl yn arwain at wella gradd dysgwr arall er mwyn cydbwysu cyfraddau'r ganran llwyddiant ar gyfer gradd benodol. Os felly, sut y byddai'r dysgwr a fydd yn cael gradd uwch yn cael ei ddewis.

Gallwn egluro na fyddem yn disgwyl i raddau dysgwyr y tu allan i'r ganolfan sy'n gysylltiedig ag apêl gael eu newid o ganlyniad i'r apêl honno. Mae hyn yn adlewyrchu'r trefniadau arferol lle nad yw deilliannau apeliadau yn effeithio ar ganlyniadau dysgwyr eraill.

Rydym wedi penderfynu mabwysiadu ein cynnig lle y gwneir apêl ar ran un dysgwr neu fwy (ond nid pob dysgwr) mewn cohort canolfan, y dylai'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer 2020 atal graddau dysgwyr heblaw am y rhai a enwyd mewn apêl rhag cael eu gostwng lle caiff gwallau eu canfod drwy'r broses apelio.

Proses apelio symlach (Cwestiwn 13)

O ystyried yr amgylchiadau yr haf hwn, gwnaethom gynnig y dylai CBAC allu nodi unrhyw achosion lle y gwnaed gwallau a'u cywiro'n gyflym.

Roedd 74% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'n cynnig; roedd 13% yn cytuno ac yn anghytuno'n rhannol, roedd 4% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ac roedd 9% yn ansicr.

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig o'r farn bod nodweddion proses apelio yr haf hwn hyd yn oed yn bwysicach na blynyddoedd blaenorol, o ystyried yr amgylchiadau eithriadol. Fel y cyfryw, roeddent o'r farn y dylid cyflwyno proses apelio ffurfiol a chynhwysfawr, hyd yn oed os bydd angen addasu rhai agweddau arni. Roeddent hefyd o'r farn y byddai adolygiad symlach yn debygol o arwain at wallau pellach.

Prif ddiben ein cynnig i ganiatáu proses apelio symlach oedd sicrhau y gellid dod o hyd i wallau amlwg yn y ffordd y cyfrifwyd graddau ar gyfer un dysgwr neu fwy yn gyflym a chywiro'r gwallau hynny, heb fod angen i ganolfan a CBAC ymgymryd â phroses apelio lawn a ffurfiol. Rydym yn parhau o'r farn fod y deilliant hwn yn ddymunol i bob parti dan sylw.

Fodd bynnag, nid yw caniatáu proses o'r fath yn golygu na ddylai proses apelio fod ar gael os na fydd modd datrys mater gan ddefnyddio proses gyflymach. Er enghraifft, os bydd canolfan o'r farn bod gwall wedi parhau neu fod gwall wedi cael ei achosi gan unrhyw gywiriad yn dilyn adolygiad cychwynnol, bydd y ganolfan yn gallu parhau â'r apêl.

Rydym wedi penderfynu mabwysiadu ein cynnig y dylid caniatáu i CBAC gynnal proses gyflymach lle mae'n cytuno bod gwall wedi'i wneud ac y gall gywiro unrhyw wall o'r fath yn gyflym.

Annibyniaeth a Didueddrwydd (Cwestiwn 14)

Gwnaethom ofyn am safbwyntiau o ran a ddylai fod yn ofynnol i CBAC gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff pob penderfyniad apêl ei gymryd gan bobl nad oeddent yn flaenorol yn rhan o'r broses yn arwain at roi'r canlyniadau hynny.

Roedd 77% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'n cynnig i sicrhau bod unigolion sy'n ymdrin ag apeliadau ar ran CBAC yn meddu ar lefel ddigonol o annibyniaeth a didueddrwydd; roedd 13% yn cytuno ac yn anghytuno'n rhannol, roedd 5% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ac roedd 6% yn ansicr.

Roedd yr ymatebwyr a oedd o blaid ein cynnig o'r farn y gallai cynnwys yr un bobl o bosibl arwain at duedd sefydliadol systematig ac felly danseilio hyder y cyhoedd yn y system gymwysterau. Fel y cyfryw, roeddent o'r farn ei bod yn hanfodol sicrhau lefel briodol o ddiueddrwydd ac annibyniaeth wrth wneud penderfyniadau apêl, ac y byddai'n arwain at gynnydd o ran cywirdeb canlyniadau. Roeddent hefyd yn cytuno, o ystyried yr amgylchiadau eithriadol, fod y broses ystadegol newydd a chymhleth yn debygol o gael ei deall yn llawn gan gronfa fwy cyfyngedig o bobl nag o dan drefniadau arferol.

Mewn ymateb i'n hymgyngoriad, esboniodd CBAC efallai nad yw'n ymarferol iddynt sicrhau bod gwahanol staff sydd â digon o wybodaeth am y broses sy'n arwain at gyhoeddi canlyniadau ar gael bob amser ar gyfer penderfyniadau a wneir yn ystod pob cam o broses apelio. I'r perwyl hwnnw, gwnaethant nodi efallai na fyddent yn gallu cydymffurfio â gofyniad o'r fath, a gofynnwyd i ni ystyried yn ofalus sut y gellid gweithredu'r gofyniad hwn.

Wrth ddadansoddi ymatebion, ymddengys fod rhai o'r ymatebwyr wedi camddeall natur y broses apelio arfaethedig. Dehonglwyd y cwestiwn gan rai i gynnwys barn broffesiynol yn hytrach na chymhwyso'r model safoni ystadegol yn unig, a fyddai o reidrwydd yn golygu nad oedd angen llunio barn mewn gwirionedd, ond bod angen cymhwysedd ystadegol cymharol brin.

Roedd yr ymatebwyr hynny a anghytunodd â'n cynnig yn gwneud hynny am wahanol resymau. Roedd rhai o'r farn y dylid gosod rhwymedigaeth absoliwt ar CBAC yn gwahardd yr holl bobl a fu'n rhan o'r broses flaenorol sy'n arwain at roi canlyniadau rhag cymryd rhan yn y penderfyniadau apêl hynny, ond roedd eraill o'r farn bod cymhwysedd yr un mor bwysig ag annibyniaeth a didueddrwydd fel maen prawf.

Rydym wedi ystyried yr ymatebion i'r cwestiwn ymgynghori hwn yn ofalus, ac i ba raddau y dylem ei gwneud yn ofynnol i CBAC sicrhau y gwneir pob penderfyniad apêl gan unigolion nad oeddent yn rhan o'r broses flaenorol sy'n arwain at roi canlyniadau.

Gwnaethom nodi yn ein hymgyngghoriad, o ystyried yr amgylchiadau dyfarnu yr haf hwn, y gall fod adegau lle na fydd yn rhesymol i CBAC allu gwarantu y byddai pobl o'r fath bob amser ar gael. Fel y cyfryw, gwnaethom gynnig ei gwneud yn ofynnol i CBAC gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcan hwn.

Fodd bynnag, ar ôl ystyried adborth yn ymwneud ag ymarferoldeb gofyniad o'r fath, rydym wedi penderfynu newid y rhwymedigaeth sydd i'w gosod ar CBAC. Yn awr, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad oes unrhyw un sy'n cymryd rhan yn y broses o flaen llaw ac sy'n arwain at gyhoeddi canlyniadau yn gwneud y **penderfyniad terfynol** ar ôl cwblhau proses apelio. Credwn fod hyn yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng cadw digon o ddiueddrwydd mewn proses apelio, tra hefyd yn sicrhau bod y broses yn ymarferol ac yn hylaw i CBAC o gofio'r amgylchiadau eithriadol sy'n ymwneud â dyfarnu'r haf hwn. Credwn hefyd y bydd proses hydrin yn sicrhau y gellid gwneud penderfyniadau ar apeliadau, ac y caiff canlyniadau eu hadrodd i ganolfannau mewn modd amserol.

Rydym wedi penderfynu diwygio ein cynnig, ac yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y penderfyniad terfynol mewn perthynas â chanlyniad apêl yn cael ei wneud gan bersonau nad oeddent yn rhan o'r broses o'r blaen yn arwain at gyhoeddi canlyniadau mewn perthynas â dysgwyr y mae'r apêl yn ymwneud ag ef.

Y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (Cwestiwn 15)

Roedd ein cwestiwn olaf ar y broses apelio yn ymwneud â'n Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (EPRS). Gwnaethom gynnig mai unig swyddogaethau'r EPRS yr haf hwn fyddai adolygu:

- i ba raddau yr oedd CBAC yn cydymffurfio â'n gofynion ni, a'i bolisiau a'i weithdrefnau ei hun, neu
- os cafodd unrhyw wall ei nodi yn y data a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r radd/graddau a gyfrifwyd a/neu yn y radd/graddau a ddyfarnwyd, p'un a gafodd y gwall hwnnw ei gywiro'n iawn.

Roedd 74% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'n cynnig; roedd 12% yn cytuno ac yn anghytuno'n rhannol, roedd 5% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ac roedd 9% yn ansicr.

Roedd y rheini a oedd o blaid y cynnig o'r farn ei bod yn briodol cysoni cwrpas yr EPRS â'r cynigion ehangach yn ymwneud â'r broses apelio, ac y gallai ehangu ei gwmpas i adolygu materion ychwanegol arwain at broses gymhleth ac anhydrin. Roedd eraill o'r

farn y byddai cadw'r EPRS fel swyddogaeth ddilysu ychwanegol, er yn seiliedig ar y seiliau cyfyngedig arfaethedig ar gyfer apeliadau, yn sicrhau bod dysgwyr yn cael graddau cywir drwy ddull gweithredu teg a safonol.

Mewn rhai achosion, roedd penderfyniad ymatebwyr i anghytuno, fel yr eglurwyd yn eu sylwadau, yn adlewyrchu eu pryderon am ein cynnig i beidio â chaniatáu apeliadau yn erbyn y farn broffesiynol a wnaed gan eu canolfan, nac ychwaith y weithdrefn a ddefnyddiwyd gan eu canolfan i gyrraedd y farn hon. Gwnaethant ailbwysleisio eu barn fod hawl i apelio yn un o egwyddorion sylfaenol cyfiawnder naturiol; fod y cynnig yn ymddangos fel petai wedi'i gynllunio'n bennaf i leihau'r baich ar CBAC a chanolfannau ac nad oedd yn cynrychioli buddiannau dysgwyr.

I'r perwyl hwnnw, roeddent o'r farn bod adolygiad llawn o'r broses ddyfarnu gan yr EPRS yn hanfodol yn seiliedig ar eu canfyddiad bod yr holl fesurau dilysu arferol yn y system wedi cael eu cyfyngu neu eu diddymu yr haf hwn.

Yn ein barn ni, mae'n bosibl bod rhai o'r pryderon hyn yn adlewyrchu camddealltwriaeth ynghylch rôl EPRS ac effaith ein cynigion. Fel yr eglurwyd yn ein hymgyngoriad, mae'r EPRS yn cynnal adolygiad gweithdrefnol yn hytrach nag apêl bellach. Mae'n canolbwyntio ar gadarnhau p'un a yw CBAC wedi cydymffurfio â'i Amodau Cydnabod wrth wneud penderfyniadau a allai effeithio ar ganlyniadau. Mae hefyd yn bwysig nodi, o dan drefniadau arferol, nad yw proses EPRS yn ail-farcio sgriptiau arholiad ac na all newid y marc na'r radd a ddyfernir i ddysgwr na'i gwneud yn ofynnol i CBAC wneud hynny.

Nid yw ein cynnig yn newid rôl yr EPRS, sef gwerthuso penderfyniadau a wnaed gan gyrrff dyfarnu yng nghyd-destun yr Amodau. Nid yw'r EPRS yn ystyried yn uniongyrchol p'un a yw deilliannau penodol yn deg, ond yn hytrach, p'un a yw'r deilliannau hynny yn gydnaws â'n gofynion.

Felly, o reidwydd, bydd angen i'r cwmpas ar gyfer cyflwyno ceisiadau i'r EPRS fod yn gydnaws â'n penderfyniadau ar y broses apelio, gan gynnwys ar ba seiliau y dylai CBAC dderbyn apeliadau o'r fath.

Rydym wedi penderfynu mabwysiadu ein cynnig y dylai'r EPRS, a weithredir gan Cymwysterau Cymru, fod ar gael i adolygu i ba raddau yr oedd CBAC yn cydymffurfio â'n gofynion ni, a'i bolisiau a'i weithdrefnau ei hun, a ph'un a gafodd unrhyw wall a nodwyd yn y data a ddefnyddiwyd i greu'r radd/graddau amcangyfrifedig a/neu yn y radd/graddau a ddyfarnwyd, ei gywiro'n iawn.

Sylwadau eraill a gafwyd

Cawsom amrywiaeth o sylwadau pellach ar y trefniadau apelio ar gyfer yr haf hwn nad ymdriniwyd â nhw'n uniongyrchol yn ein cynigion.

Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr na ddylai CBAC godi tâl am apeliadau yr haf hwn gan fod amrywiaeth o weithgareddau y byddai CBAC fel arfer yn eu cynnal yr haf hwn, na fydd bellach yn eu cynnal, neu y bydd yn eu cynnal mewn ffordd wahanol.

Fodd bynnag, fel yr eglurwyd gennym yn ein dogfen ymgynghori, bydd CBAC yn wynebu costau unigol uniongyrchol mewn perthynas â nifer o weithgareddau yr haf hwn, gan gynnwys gwaith i ddatblygu a gweithredu prosesau ar gyfer casglu data asesu canolfannau gan ganolfannau, ac addasiadau i systemau er mwyn gallu ymgymryd â gwaith safoni. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd llawer o'r costau sy'n gysylltiedig â rhai o'r gweithgareddau a fyddai'n cael eu cynnal o dan amgylchiadau arferol eisoes wedi'u talu cyn y penderfyniad i ganslo arholiadau neu y bydd ymrwymiad cytundebol i'w talu ac felly na fydd modd eu hadennill.

O ystyried yr uchod, rydym yn bwriadu parhau â'r gofynion arferol sy'n caniatáu i CBAC godi tâl am apeliadau os bydd am wneud hynny. Gwyddom fod CBAC wrthi'n ystyried ar hyn o bryd sut y dylid adlewyrchu'r trefniadau eithriadol ar gyfer 2020 yn y ffioedd a godir am ei gymwysterau. Bydd CBAC yn gwneud cyhoeddiad am ffioedd yr haf hwn maes o law.

Codwyd pryderon hefyd am amseroldeb deilliannau apêl – yn arbennig mewn perthynas â derbyniadau i golegau neu brifysgolion. Nid yw'n bosibl nodi pa mor hir y bydd yn ei gymryd i CBAC gwblhau apeliadau a gyflwynir yr haf hwn gan nad ydym yn gwybod sawl apêl y bydd yn eu derbyn. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried hydrinedd trefniadau apelio wrth ystyried opsiynau posibl ar gyfer proses apelio yr haf hwn.

Cawsom lawer o sylwadau am gyfrinachedd parhaus data asesu canolfannau, yn enwedig o ystyried deddfwriaeth diogelu data. Fel y cadarnhawyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, caiff yr eithriad ar gyfer data a gynhyrchir yn sgil ysgrifennu arholiadau ei ehangu i gynnwys data asesu canolfannau y flwyddyn hon. Bydd hyn yn caniatáu 40 diwrnod ar ôl diwrnodau canlyniadau ar gyfer ymatebion i geisiadau am fynediad at ddata gan y testun ar gyfer y wybodaeth hon¹⁰.

Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr i'r wybodaeth gael ei diogelu'n barhaol rhag cael ei datgelu. Byddai angen i'r llywodraeth newid deddfwriaeth er mwyn gwneud hyn.

¹⁰ <https://ico.org.uk/global/data-protection-and-coronavirus-information-hub/exam-script-exemption/>

4 Asesiad Effaith Integredig

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Codwyd amrywiaeth o faterion mewn ymateb i'n cwestiynau am y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau eithriadol y flwyddyn hon, eu costau ac awgrymiadau ar gyfer dulliau gweithredu amgen a allai leihau'r effaith ar y rheini y mae ein cynigion yn effeithio arnynt.

Mae'r adran hon yn nodi'r effeithiau a nodwyd gan ymatebwyr.

Yr effaith ar ddysgwyr

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a drafododd yr effeithiau ar ddysgwyr yn pryderu am yr effeithiau negyddol posibl ar y rheini a fydd o bosibl yn cael graddau is nag y byddent wedi'u cael pe byddent wedi cwblhau eu hasesiadau. Teimlwyd ei bod yn bwysig ystyried effeithiau hyn ar lesiant dysgwyr a'u cyfleoedd i wneud cynnydd.

Nododd ymatebwyr hefyd fod rhai dysgwyr yn bryderus am nad ydynt yn gwybod yn union sut y caiff eu graddau eu cyfrifo y flwyddyn hon a'u bod yn teimlo fel pe baent wedi colli rheolaeth dros eu canlyniadau. Awgrymwyd y byddai rhyddhau'r holl wybodaeth berthnasol mewn ffordd amserol a'i chyfleu'n glir yn lleihau pryder dysgwyr yn ystod y cyfnod cythryblus hwn.

Cododd nifer o'r ymatebwyr y costau yr aed iddynt gan ymgeiswyr preifat – y costau yr aed iddynt eisoes a'r costau ychwanegol y gallent fynd iddynt os bydd yn rhaid iddynt sefyll arholiadau yr haf nesaf gan na allant gael gradd asesu gan ganolfan. Rydym yn ymdrin â'r pryderon hyn yn ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb isod.

Yr effaith ar ganolfannau

Nodwyd bod y broses o gyflwyno data asesu canolfannau yn feichus i athrawon, y gallai llawer ohonynt fod yn wynebu heriau mewn perthynas â gweithio o bell neu reoli eu dyletswyddau gofal.

Gan nad yw athrawon wedi darparu data at y diben hwn o'r blaen, awgrymwyd hefyd y dylai hyfforddiant trylwyr a chanllawiau cynhwysfawr fod ar gael. Yn ogystal, teimlwyd y dylid cymryd camau ychwanegol i ddiogelu canolfannau rhag heriau cyfreithiol posibl.

Gwnaethom ddiweddarau'r canllawiau¹¹ i atgoffa Canolfannau am eu cyfrifoldebau mewn perthynas â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus¹², yn cynnwys y dyletswyddau penodol ar gyfer Cymru sy'n nodi'r camau y mae'n rhaid eu cymryd i ddangos ystyriaeth ddyledus i'r ddyletswydd gyffredinol¹³.

O ystyried y ffaith y gellid gofyn i ganolfannau gyfiawnhau'r penderfyniadau a wnaed ganddynt, diweddarwyd y canllawiau hefyd i gynghori canolfannau yn gryf i gadw cofnod ysgrifenedig manwl o'r broses a ddefnyddir i greu graddau asesu canolfannau a threfn rancio ar gyfer pob cymhwyster, a hefyd sut y defnyddiwyd y broses honno wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â graddau pob dysgwr.

Rydym hefyd wedi egluro i CBAC bod yn rhaid iddo ddarparu canllawiau ychwanegol i ganolfannau ar lunio barn a chyflwyno data, a rhoi trefniadau clir ac effeithiol ar waith fel ei bod yn hawdd i ganolfannau godi cwestiynau neu bryderon o'r fath am y broses.

Nododd ymatebwyr hefyd yr effeithiau ariannol ar ganolfannau. Nodwyd bod canolfannau yn rheoli cyllidebau is ac am nad oes arholiadau'n cael eu cynnal y flwyddyn hon, awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y dylai CBAC roi cyfiawnhad clir dros y ffioedd cofrestru ar gyfer arholiadau ac ystyried rhoi ad-daliad llawn neu rannol i ganolfannau neu ddysgwyr os na ellir cadarnhau'r costau hyn.

Yr effaith ar CBAC

Cydnabu ymatebwyr yr amrywiaeth o weithgareddau ychwanegol, ac mewn rhai achosion, newydd, y bydd CBAC yn eu cynnal er mwyn cyhoeddi canlyniadau yr haf hwn. O ystyried y beichiau cronol y mae'n eu hwynebu, gan gynnwys o bosibl o ran trefniadau asesu yn ystod haf 2021, roedd rhai o'r farn ei bod yn bwysig bod yr holl randdeiliaid yn ymddiried ynddo.

I'r gwrthwyneb, cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at yr effaith ariannol gadarnhaol i CBAC am na fydd yn talu am arholwyr na chymedrolwyr o dan y trefniadau yr haf hwn. Nodwyd hefyd y gallai hyn gael effaith ariannol ar yr unigolion hynny sy'n gweithio i CBAC yn y rolau hyn ac nad ydynt o bosibl yn cael incwm.

¹¹ <https://www.cymwysteraucymru.org/media/5972/gwybodaeth-i-ganolfannau-ar-gyflwyno-graddau-asesu-canolfannau-fersiwn-2-18-mai-2020.pdf>

¹² <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/section/149>

¹³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/1064/contents/made>

Yr effaith ar golegau a phrifysgolion

Nododd ymatebwyr y goblygiadau posibl o ran cyllid i ddarparwyr ôl-16, gan gynnwys prifysgolion. Os bydd dysgwyr yn cael graddau is nag yr oeddent yn eu disgwyl, awgrymwyd efallai na fyddant yn parhau ar y llwybr a gynlluniwyd ganddynt. Gallai hyn gyfyngu ar incwm colegau a phrifysgolion a allai, yn y senario waethaf, olygu nad yw'n ymarferol iddynt barhau i ddarparu addysg.

Nodwyd hefyd heriau logistaidd posibl wrth gynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Os bydd deilliannau'n uwch na'r arfer y flwyddyn hon, awgrymwyd y gallai niferoedd uwch na'r arfer wneud cais am gyrsiau, a allai effeithio ar drefniadau amserlennu canolfannau. Ar y llaw arall, os bydd dysgwyr ar lefel UG yn cael graddau is na'r disgwyl, awgrymwyd efallai na fyddant yn parhau i astudio ar gyfer cymwysterau Safon Uwch, a allai olygu y bydd yn anymarferol cynnal rhai dosbarthiadau.

Yr effaith ar rieni a gofawyr

Awgrymwyd y dylai ein hasesiad hefyd ystyried yr effaith ar rieni. Nodwyd y bydd angen i rieni gefnogi a thywys eu plant drwy'r broses y flwyddyn hon a'u helpu i ddelio ag unrhyw oblygiadau emosiynol neu ymarferol os byddant yn siomedig â'u canlyniadau.

I'r perwyl hwnnw, awgrymwyd y dylid cyfleu pob penderfyniad yn glir, ac mewn ffordd amserol. Ystyriwyd bod manylion am y model safoni ystadegol yn hanfodol i'w helpu i ddeall y broses. Awgrymwyd hefyd fod rhieni'n cael dogfen fer yn egluro'r hyn y gallant ei wneud os na fydd eu plentyn yn cael y graddau yr oedd yn eu disgwyl. Teimlwyd y bydd hyn hefyd yn helpu i leddfu'r pryderon hynny am lesiant dysgwyr.

Sylwadau Eraill

Nid oedd rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cynigion y gwnaethom ymgynghori arnynt neu nid oedd gennym y pŵer i ymdrin â nhw. Roedd y rhain yn cynnwys:

- bydd yr ansicrwydd ynghylch trefniadau haf 2021 yn cael effaith negyddol ar lesiant dysgwyr;
- effaith dysgu cyfunol ar ddysgwyr ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 12 a fydd yn sefyll eu harholiadau TGAU a Safon Uwch yr haf nesaf;
- yr effaith ar y dysgwyr hynny sy'n sefyll cymwysterau UG y flwyddyn nesaf, na fyddant wedi cael y profiad o sefyll arholiadau TGAU a gafodd cohortau blaenorol;
- yr effaith negyddol ar ddysgwyr yng Nghymru o gymharu â'u cyfoedion yn Lloegr a fydd yn cael cyfle i ailsefyll eu cymwysterau fel rhan o gyfres yr hydref;

- cyflwyno'r broses yn gynt er mwyn rhoi mwy o amser i ddysgwyr a phrifysgolion drefnu lleoedd;
- yr effaith bosibl ar ddyfodol cymwysterau.

Rydym yn ymwybodol bod dysgwyr ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 12 sydd hanner ffordd drwy eu cyrsiau TGAU a Safon Uwch yn pryderu sut y byddant yn cyflawni'r gwaith sydd i'w wneud cyn haf 2021. Yn ddigon amlwg, mae athrawon a darlithwyr hefyd yn pryderu ac yn awyddus i wneud eu gorau dros eu dysgwyr. Am yr holl resymau hyn, credwn y bydd angen addasu'r arholiadau yr haf nesaf.

Gan weithio'n agos â CBAC, rydym yn edrych yn ofalus ar y trefniadau ar gyfer haf 2021. Nid oes neb yn gwybod beth a ddaw yn ystod y 12 mis nesaf, felly rydym yn cynllunio ar gyfer amrywiaeth o senarios. Bydd angen i ni ystyried addasiadau, gan bwysu a mesur yr addasiadau hynny'n ofalus yn erbyn yr angen i ddiogelu uniondeb y cymwysterau.

Mae'n amlwg nad oes unrhyw atebion hawdd ac y bydd angen pennu unrhyw addasiadau fesul pwnc, gan sicrhau y caiff addasiadau eu gwneud mewn ffordd deg ar draws pynciau.

Byddwn yn gwneud popeth y gallwn ei wneud i gefnogi'r rheini y mae'r sefyllfa bresennol yn effeithio arnynt, ond mae angen i ni hefyd sicrhau bod cymwysterau TGAU a Safon Uwch yn parhau'n gymwysterau credadwy a dilys yn haf 2021. Rydym yn gobeithio rhannu rhagor o wybodaeth am haf 2021 yn ystod yr wythnosau nesaf.

Rhodddwyd ystyriaeth ofalus i'r penderfyniad i beidio â chynnig cyfres arholiadau yn ystod yr hydref yng Nghymru. Gwnaed y penderfyniad hwn gennym am sawl rheswm. Yn gyntaf, rydym yn pryderu y byddai cyfres lawn yn ystod yr hydref yn tarfu'n sylweddol ar yr addysgu a'r dysgu ar ddechrau tymor yr hydref; rydym o'r farn y dylid caniatáu i ddysgwyr ailffocysu eu dysgu yn dilyn y cyfnod hynod gythryblus hwn. Yn ail, o ystyried yr ansicrwydd ynghylch hyd y sefyllfa barhaus, teimlwyd gennym ei bod yn hanfodol rhoi sicrwydd cynnar i ddysgwyr, canolfannau a CBAC yn hyn o beth.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae ein trefniadau arfaethedig er mwyn caniatáu i ddysgwyr gael eu canlyniadau mewn ffordd amserol yr haf hwn wedi codi nifer o bryderon am effaith negyddol bosibl ar amrywiaeth o ddysgwyr, gan gynnwys y rheini sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol. Mae'r pryderon hyn yn ymwneud yn fras â'r themâu canlynol:

1. Gall data asesu canolfannau roi grwpiau o ddysgwyr dan anfantais yn systematig;
2. Ni fydd rhai dysgwyr ar gael i gael gradd, neu ni fyddant yn gallu fforddio'r gost gysylltiedig.

Gall data asesu canolfannau roi grwpiau o ddysgwyr dan anfantais yn systematig

O dan y thema gyntaf, roedd y grwpiau o ddysgwyr a nodwyd gan yr ymatebwyr yn cynnwys:

- dysgwyr o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BAME) a all gael eu tanwobrwyo yn nata asesu canolfannau. Awgrymwyd y dylai'r model safoni ystadegol ystyried hyn.
- dysgwyr sydd â threfniadau mynediad ar waith ar gyfer arholiadau – mynegwyd pryderon y gall data asesu canolfannau ragfynegi deilliannau is ar gyfer y dysgwyr hyn am nad yw'r trefniadau mynediad hyn ar waith wrth gwblhau llawer o asesiadau mewnol.
- dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anawsterau emosiynol – nodwyd efallai nad oes gan athrawon ddealltwriaeth lawn o allu'r dysgwyr hyn dan amodau arholiad ac y gallent felly danystyried eu potensial;
- teimlwyd bod angen rhoi ystyriaeth bellach i'r effaith ar ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (fel procsi ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol);
- dysgwyr sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol – nodwyd bod rhai o'r dysgwyr hyn yn gwneud cynnydd cyflym o ran eu meistrolaeth o'r Saesneg, a all effeithio ar eu dealltwriaeth o lawer o'u pynciau. Felly, ystyriwyd ei bod yn rhesymol disgwyl y gallai'r dysgwyr hyn wneud gwelliannau cyflymach na dysgwyr eraill;
- dysgwyr aeddfed – roedd pryderon am sut y byddai data asesu canolfannau ar gyfer y dysgwyr hyn yn cael eu safoni yn y model am nad oes ganddynt ddata cyrhaeddiad blaenorol yn aml iawn. Roedd awgrym hefyd y gallai deilliannau dysgwyr aeddfed fod yn uwch na'r cyfartaledd mewn blynyddoedd arferol, ac efallai na chaiff hyn ei adlewyrchu yn y canlyniadau y flwyddyn hon;
- dysgwyr sydd wedi colli addysg o ganlyniad i salwch sy'n golygu efallai na fydd gan ganolfannau ddigon o dystiolaeth i lywio eu dyfarniadau;
- dysgwyr sy'n rhagori mewn arholiadau neu sy'n tueddu i aeddfedu yn ddiweddarach yn y flwyddyn academiaidd – awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y gallai hyn effeithio'n benodol ar fechgyn;
- dysgwyr â phroblemau iechyd meddwl nas nodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Awgrymwyd y gallai eu hiechyd fod wedi effeithio ar eu perfformiad yn y dosbarth hyd yma ac y gallai, felly, effeithio ar ddata asesu'r ganolfan.

Er mwyn lliniaru rhai o'r pryderon hyn, awgrymwyd y dylid cymryd camau ychwanegol.

Roedd y rhain yn cynnwys:

- rhoi cymorth i ganolfannau wneud penderfyniadau diduedd;
- atgoffa canolfannau am Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus;
- gofyn i CBAC gasglu data ar ddysgwyr gan ystyried eu hanghenion dysgu ychwanegol er mwyn helpu i nodi anfantais;
- cymharu graddau asesu canolfannau â deilliannau dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig mewn blynyddoedd blaenorol er mwyn nodi unrhyw duedd bosibl yn gynnar.

Awgrymodd rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad fod y trefniadau eithriadol sy'n cael eu rhoi ar waith y flwyddyn hon yn cynnig cyfle i gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng gwahanol grwpiau o ddysgwyr. Nid dyna ddiben y trefniadau. Diben y trefniadau, cyhyd ag y bo'n bosibl, yw sicrhau bod pob dysgwr yn cael y graddau y byddent fwy na thebyg wedi'u cael pe byddent wedi sefyll yr arholiadau yn ôl y bwriad.

Awgrymwyd hefyd y dylid sicrhau bod dogfennau sy'n amlinellu penderfyniadau'r ymgynghoriad hwn ac sy'n egluro'r model safoni ystadegol a'r broses apelio ar gael mewn fformatau amgen er mwyn i bob dysgwr allu cael gafael arnynt.

Ein Hymateb

Fel yr eglurwyd yn flaenorol, rydym wedi diweddarau ein canllawiau i ganolfannau i gynnwys cyfeiriadau at Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, gan atgoffa canolfannau o'u rhwymedigaethau wrth bennu gradd asesu a threfn rancio pob dysgwr. Mae CBAC hefyd wedi darparu canllawiau ychwanegol i ganolfannau ynghylch llunio'r farn honno a chyflwyno data.

Rydym yn anelu hefyd at ddewis model sy'n rhagfynegi graddau dysgwyr yn gywir. Byddwn yn monitro effaith y dull safoni ar raddau dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig.

O ran data dysgwyr, gallwn gadarnhau ein bod ni a CBAC eisoes wedi cyflwyno cais ar y cyd i Lywodraeth Cymru i gael gweld y data sy'n bodoli eisoes ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion a gynhelir. Er enghraifft, dylai fod gennym ddata ar oedran, rhyw, ethnigrwydd (fel procsi ar gyfer hil) a statws Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)/Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (fel procsi ar gyfer anabled) dysgwyr. Dylai fod gennym wybodaeth hefyd am gymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim fel mesur o anfantais economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag, nid oes data ar gael ar nodweddion fel priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol. Ni fyddai'n ymarferol nac yn gymesur casglu data o'r fath nawr.

Fel yr eglurwyd gennym yn ein dogfen ymgynghori, byddwn yn sicrhau y caiff data asesu canolfannau eu gwirio cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt eu darparu, a byddwn yn

defnyddio data Llywodraeth Cymru i weld a oes tystiolaeth bod bylchau cyrhaeddiad sy'n gysylltiedig â nodweddion dysgwyr wedi newid yn sylweddol o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Byddwn yn cyhoeddi dadansoddiad o fylchau cyrhaeddiad yn y canlyniadau terfynol a gyfrifir. Mewn perthynas â materion fel ethnigrwydd ac AAA, nad yw CBAC yn casglu data amdanynt fel mater o drefn, byddwn ni a CBAC yn parhau i ddibynnu ar allu Llywodraeth Cymru i rannu data â ni at y dibenion hyn.

Ni fydd rhai dysgwyr ar gael i gael gradd, neu ni fyddant yn gallu fforddio'r gost gysylltiedig

Roedd y pryderon a godwyd mewn perthynas â'r ail thema – na fyddai rhai dysgwyr o bosibl yn gallu cael gradd o gwbl yr haf hwn – yn canolbwyntio ar ymgeiswyr preifat.

Rydym wedi ystyried a ellid rhoi gradd wedi'i chyfrifo gan ddefnyddio canlyniadau unedau i ymgeiswyr preifat sydd eisoes wedi cael canlyniadau ar gyfer rhai o'r unedau. Byddai'r dull hwn yn debyg i'r dull sefydledig a ddefnyddir os bydd dysgwyr yn colli un uned neu fwy, a bod corff dyfarnu yn penderfynu gwneud dyfarniad eithriadol, ar sail tystiolaeth rannol.

Daethom i'r casgliad ar gyfer yr ymgeiswyr preifat hynny sydd wedi sefyll rhan o'r cymhwyster fel rhan o gyfres gynharach, y gellir cymhwyso'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer dysgwyr na fyddant yn cwblhau pob arholiad mewn perthynas â phwnc mewn unrhyw flwyddyn arall am resymau eithriadol, fel salwch ar ddiwrnod yr arholiad, o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn.

Fodd bynnag, bydd rhai ymgeiswyr preifat o hyd na fyddant yn gymwys ar gyfer y fethodoleg hon ac felly na fyddant yn cael gradd wedi'i chyfrifo yr haf hwn. Er ein bod am weld cynifer â phosibl o ddysgwyr yn symud ymlaen i astudiaethau pellach neu i gyflogaeth, mae'n hanfodol bod pob gradd yn cael ei phennu gan ddefnyddio proses gadarn fel bod gan bawb hyder yn y graddau hynny.

Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg

Darparodd ymatebwyr amrywiaeth eang o sylwadau mewn perthynas â'r Gymraeg.

Pan ofynnwyd iddynt am eu barn ar effaith y cynigion ar y Gymraeg, nododd ymatebwyr y canlynol:

- effaith bosibl safoni ystadegol ar y canolfannau cyfrwng Cymraeg hynny â chohortau bach;
- effaith cau ysgolion ar y broses o addysgu Cymraeg, ac o ganlyniad yr effaith bosibl ar ganlyniadau a nifer y disgyblion a fydd yn astudio'r pwnc yn y dyfodol;
- effaith y broses o bennu trefn rancio ar y dysgwyr hynny mewn ysgolion dwy ffrwd ac ysgolion dwyieithog, lle bydd y drefn rancio yn cynnwys y ddau fath o ddysgwr.

Mewn ymateb i bryderon am effaith y model ar y canolfannau hynny â chohortau bach, boed yn ganolfannau cyfrwng Cymraeg ai peidio, rydym wrthi ar hyn o bryd yn profi cywirdeb rhagfynegiadol gwahanol fodolau ac yn rhoi sylw gofalus i achosion o'r fath. Yn ogystal, credwn y bydd gallu'r model i ddibynnu ar nifer o ffynonellau tystiolaeth er mwyn ystyried ffactorau o'r fath yn ymdrin â rhai o'r pryderon hyn.

Gan mai Llywodraeth Cymru wnaeth y penderfyniad i gau ysgolion, nid ydym o'r farn bod hyn yn rhan o'n cylch gwaith ac felly nid yw'n rhan o gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

O ran yr effaith bosibl ar drefn rancio ar gyfer y dysgwyr hynny mewn lleoliadau dwyieithog neu leoliadau dwy ffrwd, rydym wedi egluro wrth CBAC bod yn rhaid iddo ddarparu canllawiau ychwanegol i ganolfannau ar lunio barn a chyflwyno data, a rhoi trefniadau clir ac effeithiol ar waith fel ei bod yn hawdd i ganolfannau godi cwestiynau neu bryderon o'r fath am y broses.

5 Y Camau Nesaf

Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn ar y penderfyniadau, rydym hefyd wedi cyhoeddi ein fframwaith rheoleiddio eithriadol, gan adlewyrchu ein penderfyniadau polisi, ar gyfer y cymwysterau yr effeithir arnynt. Mae'r fframwaith eithriadol hwn yn nodi'r gofynion rheoleiddiol a roddwyd ar CBAC mewn perthynas â'r trefniadau terfynol ar gyfer cyhoeddi canlyniadau yn ystod haf 2020.

Mae'r cymwysterau yr effeithir arnynt fel a ganlyn:

- Cymwysterau TGAU cymeradwy;
- Cymwysterau UG cymeradwy;
- Cymwysterau Safon Uwch cymeradwy;
- Cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru;
- Cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch etifeddol sydd ond ar gael i ddysgwyr yng Nghymru¹⁴.

Gellir gweld yr holl newidiadau i'n Fframwaith Rheoleiddio [yma](#).

Bydd y fframwaith eithriadol, a'r holl newidiadau yn deillio ohono, yn weithredol ar unwaith, a byddant yn parhau mewn grym hyd nes i ni gyhoeddi hysbysiad yn datgymhwyso rhan o'r fframwaith hwnnw, neu'r fframwaith cyfan, mewn perthynas ag un neu fwy o'r cymwysterau yr effeithir arnynt.

Rydym yn gweithio gyda CBAC ar hyn o bryd i ddatblygu, profi a chytuno ar y model safoni ystadegol. Ar ôl cytuno arno, bydd rhagor o wybodaeth am y model, a sut y bydd yn gweithio er mwyn cyfrifo graddau, ar gael i'r cyhoedd. Ein nod yw cyhoeddi gwybodaeth o'r fath ym mis Gorffennaf.

¹⁴ TGAU Lefel 1/Lefel 2 CBAC mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, TGAU Lefel 1/Lefel 2 CBAC mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Cwrs Byr), TGAU Lefel 1/Lefel 2 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, TGAU Lefel 1/Lefel 2 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dwyradd), TGAU Lefel 1/Lefel 2 CBAC mewn Gwyddor Cartref: Datblygiad Plant, TAG Lefel 3 Uwch Gyfrannol CBAC mewn TGCh Gymhwysol, TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn TGCh, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn TGCh Gymhwysol, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn TGCh, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dwyradd), TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dwyradd), TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.